Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Adroddiad Cyflwr y Parc 2020



DANGOSYDDION ADRODDIAD CYFLWR Y PARC 2020	
Pennod 1 – Natur a Hinsawdd	
1	Cyflwr SoDdGA Daearegol
2	Cyflwr SoDdGA Biolegol
3	Natura 2000
4	Ansawdd Dŵr
5	Perygl Llifogydd
6	Gollyngiad Afonydd
7	Ansawdd Aer
8	Cyflwr Priddoedd/Mawn
9	Cynefinoedd a Rhywogaethau Blaenoriaeth – Coetir a Choetir Hynafol Lled-naturiol
10	Adar Bridio/Nythu
11	Ystlumod
12	Rhywogaethau Estron Goresgynnol
Pennod 2 – Diwylliant a Threftadaeth	
13	Hawliau Tramwy
14	Erydu Ucheldir ar Lwybrau
15	Y Gymraeg
16	Digwyddiadau Diwylliannol
17	Henebion Cofrestredig yr Amgylchedd Hanesyddol
18	Adeiladau Rhestredig yr Amgylchedd Hanesyddol
Pennod 3 – Pobl a'r Economi	
19	Gwariant Twristiaeth
20	Poblogaeth
21	Tai
22	Cyfraddau Eiddo Gwag
23	Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Cynnwys

Ffigurau 5

Cyflwyniad 7

Crynodeb o Benawdau 9

Pennod 1 – Natur a Hinsawdd 20

Cyflwyniad 20

Dangosydd 1 – Cyflwr SoDdGA Daearegol 23

Dangosydd 2 – Cyflwr SoDdGA Biolegol 24

Dangosydd 3 – safleoedd Natura 2000 26

Dangosydd 4 – Ansawdd Dŵr 27

Dangosydd 5 – Perygl Llifogydd 29

Dangosydd 6 – Gollyngiad Afonydd 31

Dangosydd 7 – Ansawdd Aer 32

Dangosydd 8 – Cyflwr Priddoedd/Mawn 33

Dangosydd 9 – Cynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaeth – Coetir a Choetir Hynafol Lled-naturiol 35

Dangosydd 10 – Adar Bridio/Nythu 38

Dangosydd 11 – Ystlumod 43

Dangosydd 12 – Rhywogaethau Estron Goresgynnol 45

Pennod 2 – Diwylliant a Threftadaeth 49

Cyflwyniad 49

Dangosydd 13 – Hawliau Tramwy 50

Dangosydd 14 – Erydu Ucheldir 51

Dangosydd 15 – Y Gymraeg 52

Dangosydd 16 – Digwyddiadau Diwylliannol 54

Dangosydd 17 – Henebion Cofrestredig 56

Dangosydd 18 – Adeiladau Rhestredig 57

Pennod 3 – Pobl a'r Economi 58

Cyflwyniad 58

Dangosydd 19 – Gwariant Twristiaeth 61

Dangosydd 20 – Poblogaeth 62

Dangosydd 21 – Tai 68

Dangosydd 22 – Cyfraddau Eiddo Gwag yng Nghanol Trefi 71

Dangosydd 23 – Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 72

Atodiadau 76

Atodiad 1 – Tabl Cymharu Dangosyddion 77
Atodiad 2 – Clwydfannau Mamolaeth Ystlumod 79
Atodiad 3 – Amonia Nwyol 81
Atodiad 4 – Safleoedd Natura 2000 a Chyflwr Nodweddion 83
Atodiad 5 – Safleoedd Natura 2000 a Chyflwr Nodweddion (Cyfoeth Naturiol Cymru 2020) 86
Atodiad 6 – Statws Cemegol Cyrff Dŵr 87
Atodiad 7 – Statws Ecolegol Cyrff Dŵr 89
Atodiad 8 – Statws Cyrff Dŵr Cyffredinol 90
Atodiad 9 – Statws Cyrff Dŵr 91
Atodiad 10 – Data tueddiadau 23 mlynedd rhywogaethau ar gyfer 1995-2018 93
Atodiad 11 – Cymhariaeth Sgiliau Cymraeg (Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) 95
Atodiad 12 – Cyflogaeth/Diweithdra 97

Ffigurau

Ffigur 1 Cyflwr Safleoedd SoDdGA rhwng 2014 a 2017 23
Ffigur 2 Cyflwr nodweddion SoDdGA Daearegol 24
Ffigur 3 Cyflwr nodweddon SoDdGA Biolegol 25
Ffigur 4 Statws Nodweddion ACA yn y Parc (Arwynebedd mewn Hectarau) 27
Ffigur 5 Map llifogydd a TAN 15 Llywodraeth Cymru 30
Ffigur 6 Perygl Llifogydd mewn Hectarau 31
Ffigur 7 Cyfradd Llif Gyfartalog Flynyddol Afon Wysg 32
Ffigur 8 Dangosyddion Amlygiad Ansawdd Aer NO2 33
Ffigur 9 Parciau Cenedlaethol – Cyfanswm y Mawndir – Arwynebedd (Hectarau) (Cyfoeth Naturiol Cymru 2020) 34
Ffigur 10 Dosbarthiad Mawn 35
Ffigur 11 Ffigurau arwynebedd cynefin coetir (Data Cyfnod 1 Cyfoeth Naturiol Cymru o 2014) 36
Ffigur 12 Coetir Hynafol 37
Ffigur 13 Rhywogaethau Tir Fferm 39
Ffigur 14 Rhywogaethau Ucheldir 36
Ffigur 15 Rhywogaethau Coetir 40
Ffigur 16 Rhywogaethau Trefol, Gwlypdir ac Eraill 41
Ffigur 17 Tabl crynhoi tueddiadau poblogaeth rhywogaethau ystlumod Cymru 44
Figure 18 Rhywogaethau Estron Goresgynnol 46
Ffigur 19 Nifer y rhywogaethau a nifer y cofnodion o Rywogaethau Estron Goresgynnol a gofnodwyd yn y Parc Cenedlaethol yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf (Data o'r Ganolfan Cofnodion Lleol ar gyfer Powys a Chanolfan Cofnodion Lleol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) 43
Ffigur 20 Y 10 Rhywogaeth Estron Oresgynnol fwyaf yn ôl nifer y cofnodion ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (Data o'r Ganolfan Cofnodion Lleol ar gyfer Powys a Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, cywir ar 14/02/20) 44
Ffigur 21 Newid i Nifer y Cofnodion o Rywogaethau Estron Goresgynnol 48
Ffigur 22 Arwynebedd cofrestredig tir a ffermir yn y parc 50
Ffigur 23 Hawliau tramwy 'Hawdd eu Defnyddio' 51
Ffigur 24 Hawliau tramwy 'Agored' 51
Ffigur 25 Sgiliau Cymraeg (Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011) 53
Ffigur 26 Nifer y Digwyddiadau Lleol a Gynhaliwyd 54
Ffigur 27 Nodweddion Amgylchedd Hanesyddol yn y Parc 55
Ffigur 28 Henebion Cofrestredig 56
Ffigur 29 Adeiladau Rhestredig ac Adeiladau mewn Perygl 57
Ffigur 30 Gwariant twristiaeth yn ôl sector gwariant (data STEAM 2017) 61
Ffigur 31 Gwesteion sy'n aros mewn hostel YHA ym Mannau Brycheiniog 62
Ffigur 32 Poblogaeth Parciau Cenedlaethol Cymru (Ffynhonnell: StatsCymru, 2018) 63
Ffigur 33 Amcanestyniadau Poblogaeth Parciau Cenedlaethol (Ffynhonnell: StatsCymru 2017) 64
Ffigur 34 Canran y Trigolion fesul grŵp oedran (Ffynhonnell: StatsCymru) 64
Ffigur 35 Amcanestyniadau o Aelwydydd (Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru 2017) 65
Ffigur 36 Amcanestyniadau mathau o aelwydydd 2014 – 2029 (Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru 2017) 66

Ffigur 37 Amcangyfrifon Maint Aelwydydd Cyfartalog 67
Ffigur 38 Yr Angen am Dai Fforddiadwy yn y Parc 68
Ffigur 39 Prisiau Tai yn y Parc Cenedlaethol (Ffynhonnell: data Lloyds ar brisiau a fforddiadwyedd tai (2018)) 69
Ffigur 40 Cymhareb Fforddiadwyedd (Ffynhonnell: data Lloyds ar brisiau a fforddiadwyedd tai (2018)) 70
Ffigur 41 Achosion o Gwblhau Tai yn y Parc Cenedlaethol (Ffynhonnell: Cydastudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai) 70
Ffigur 42 Tai a adeiladwyd ar safleoedd tai mawr 2015-2019 71
Ffigur 43 Cyfraddau Eiddo Gwag Blynyddol (1 Cyfnod Monitro = 1 Flwyddyn) 72
Ffigur 44 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru Llywodraeth Cymru) 73

Cyflwyniad

1. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi paratoi'r Adroddiad Cyflwr y Parc hwn i lywio'r broses cynllunio rheoli. Mae'n bwysig nodi'r materion allweddol sy'n effeithio (yn gadarnhaol ac yn negyddol) ar gyflawniad dibenion a dyletswydd y parc. Y dibenion a'r ddyletswydd, a nodwyd yn Neddf yr Amgylchedd (1995), yw:

    Dibenion:

    1 *Gwarchod a gwella'r harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol*

    2 *Hybu cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig parciau cenedlaethol*

    Dyletswydd:

    Ceisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol o fewn y parciau cenedlaethol

2. Hysbysir yr adroddiad gan ddata a ddelir gan amrywiaeth o sefydliadau, cyfranogiad rhanddeiliaid ac adolygiad o wybodaeth sylfaenol. Hefyd, paratoi Adroddiad Cyflwr y Parc yw'r cam cyntaf hanfodol yn yr Asesiad Amgylcheddol Strategol o'r Cynllun Rheoli.
3. Nid yw ffin y Parc Cenedlaethol yn cyd-fynd â ffiniau sefydliadau yr ydym yn dibynnu arnynt ar gyfer llawer o'n data, fel Awdurdodau Lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru. Felly, gall cael data ystyrlon sydd wedi'u trefnu i gyd-fynd â ffin y parc fod yn her. O'r herwydd, bydd Adroddiad Cyflwr y Parc yn parhau i gael ei adolygu a nodwyd meysydd yr ydym yn credu y byddent yn elwa ar ddata ychwanegol.
4. Bydd y dangosyddion, ac eraill wrth i ddata fod ar gael, yn cael eu monitro o'u cymharu â'r data sylfaenol gorau sydd ar gael ar gyfer Rhinweddau Arbennig y Parc ac yn cael eu diweddaru'n rheolaidd.
5. Mae'r dangosyddion yn cynnig cipolwg o gyflwr presennol y Parc, a phan fo'n bosibl, tueddiadau arwyddol dros amser o'u cymharu â'r data sylfaenol gorau sydd ar gael o Adroddiadau Cyflwr y Parc 2006 a 2014 a ffynonellau eraill.
6. Mae'n rhaid darllen yr adroddiad yn amodol ar gafeatau, a nodir pan fyddant yn berthnasol, oherwydd y data cyfyngedig sydd ar gael. Fodd bynnag, mae darlun yn dechrau dod i'r amlwg o'r Parc Cenedlaethol fel y mae heddiw, a gellir mesur newidiadau yn y dyfodol yn erbyn hyn.
7. Mae gweithgareddau dehongli, arfarnu, datblygu polisi a chynllunio i fynd i'r afael â'r materion cymhleth sy'n deillio o'r adroddiad hwn yn rhan o gwmpas y Cynllun Rheoli. Mae Atodiad 1 yn darparu tabl o ddangosyddion o 2006, 2014 a 2020 a rhestr o ddangosyddion yr hoffem eu defnyddio ond bod bwlch data yn bodoli.
8. Mae'r argraffiad hwn o Adroddiad Cyflwr y Parc yn disodli Adroddiad Cyflwr y Parc 2006 ac Adroddiad Cyflwr y Parc 2014.

Cefndir

9. Mae'r adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar adeg pan fo her amgylcheddol a gwleidyddol eithriadol ar raddfa genedlaethol a byd-eang. Ceir tystiolaeth gadarn ac ymwybyddiaeth gyhoeddus gynyddol o'r bygythiad i ddynoliaeth, yn sgil y newid yn yr hinsawdd a'r dirywiad i helaethrwydd, amrywiaeth ac chydgysylltedd byd natur.

10. Mae'n bwysig ein bod yn defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael o gyflwr presennol y Parc, gan olrhain tueddiadau o Adroddiadau Cyflwr y Parc blaenorol pan fo'n bosibl, er mwyn hysbysu datblygiad polisïau, cynlluniau a chamau gweithredu a fydd yn cael eu nodi yn y Cynllun Rheoli. Wrth lunio ac asesu'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn, rydym yn ymwybodol o hyd nad oes gennym yr holl dystiolaeth yr hoffem ei chael i barhau i weithio gyda chymunedau a phartneriaid y Parc i lenwi bylchau data hysbys a sicrhau dealltwriaeth ddyfnach. Rydym wedi nodi'n eglur trwy'r adroddiad cyfan lle'r ydym o'r farn bod angen i ni roi mwy o bwyslais a gwybodaeth yn y dyfodol.
11. Trefnwyd yr adroddiad yn dair pennod eang sy'n adlewyrchu'r dibenion a'r ddyletswydd yn nynodiad gwreiddiol yr ardal gwarchodaeth arbennig hon gan gydnabod y berthynas a'r rhyng-ddibyniaethau cymhleth rhwng pobl, natur a thirwedd, sef:

Natur a Hinsawdd	**Diwylliant a Threftadaeth**	**Pobl a'r Economi**

Crynodeb o Benawdau

- Mae **5 o'r 23** dangosydd yn dangos tueddiadau cadarnhaol (GWYRDD) o'u cymharu â'r llinell sylfaen.

- Mae **8 o'r 23** dangosydd yn dangos dim tueddiad eglur (LLWYD) o'i gymharu â'r llinell sylfaen.

- Mae **10 o'r 23** dangosydd yn dangos tueddiad negyddol (COCH) o'i gymharu â'r data sylfaen.



Pennod 1 - Natur a Hinsawdd (Crynodeb o'r Penawdau)





Dangosydd 1 – SoDdGA Daearegol (Cyflwr nodweddion daearegol) – GWYRDD

Mae 30% (2006), 91 (2014) ac 88% (2017) mewn cyflwr ffafriol yn dangos tueddiad sylweddol o wella yn 2007-2014 â mân ddirywiad yn 2014-2017.

Mae 51% (2006), 3% (2014), a 3% (2017) mewn cyflwr anffafriol yn dangos tueddiad o wella yn 2007-2014 a thueddiad sefydlog yn 2014-2017.

Dangosydd 2 – SoDdGA Biolegol (Cyflwr nodweddion biolegol) – COCH

Mae 29% (2006), 55% (2014) a 54% (2017) mewn cyflwr ffafriol yn dangos tueddiad sylweddol o wella yn 2007-2014 â mân ddirywiad yn 2014-2017.

Mae 55% (2006), 33% (2014) a 34% (2017) mewn cyflwr anffafriol yn dangos tueddiad sylweddol o wella yn 2007-2014 â mân ddirywiad yn 2014-2017.

Mae 65% (51) o SoDdGA mewn cyflwr ffafriol, o'i gymharu â 69% (53) yn 2014, ac mae cyflwr cyffredinol SoDdGA yn dangos tueddiad dirywiol.

Mae 34% o SoDdGA mewn cyflwr anffafriol a dim ond 10% o SoDdGA sy'n cael eu rheoli'n briodol.

Dangosydd 3 – Natura 2000 (ACA) – COCH

Mae 44% (7,806.53 hectar) o nodweddion ACA mewn cyflwr ffafriol ac mae 56% (10,112.31 hectar) mewn cyflwr anffafriol.

Dangosydd 4 – Ansawdd Dŵr – COCH

Dyfarnwyd 'statws da' i 50% (3 o 6) o gyrff dŵr dynodedig yn y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, ond dyfarnwyd statws 'cymedrol' yn unig i 50% (3 o 6). Mae'n ofynnol i'r rhai sydd wedi ymuno â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr gyflawni statws ecolegol da neu well ar gyfer pob corff dŵr dynodedig erbyn 2027.

Dangosydd 5 – Perygl Llifogydd – LLWYD

Darperir map o ardaloedd llifogydd TAN 15 Llywodraeth Cymru ac arwynebedd y Parc mewn hectarau sydd o fewn ardal llifogydd C2. Mae'r ffigur hwn yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau polisi, ond mae'n destun newidiadau amrywiol fel ein dealltwriaeth o seilwaith amddiffyn rhag llifogydd a newid yn yr hinsawdd. Bydd angen gwneud gwaith monitro rheolaidd felly. Darparodd Adroddiad Cyflwr y Parc (2014) wybodaeth am lifogydd a ddaeth o gyfrifiad 2011. Ni fydd Adroddiad Cyflwr y Parc yn cael ei ddiweddaru gyda data cyfatebol tan i'r cyfrifiad nesaf gael ei gyhoeddi ar ôl 2021.

Dangosydd 6 – Gollyngiad Afonydd – LLWYD

Dim tueddiad hirdymor amlwg i gyfradd llif gyfartalog flynyddol Afon Wysg o'r data sydd ar gael, ond mae tystiolaeth anecdotaidd ar gael o gynnydd i lifau isel tymhorol (h.y. gwanwyn/haf) sy'n gwaethygu effaith gordyfiant algâu a achosir gan Ffosffad.

Dangosydd 7 – Ansawdd Aer – LLWYD

Mae dangosyddion amlygiad ansawdd aer NO2 ym mhob un o'r 7 ardal Awdurdod Lleol yn y parc yn dangos gwelliant i ansawdd aer o 2009-2017. Fodd bynnag, ceir tueddiad data andwyol ar gyfer allyriadau o amonia nwyol sy'n dangos cynnydd sydyn ar ôl 2013.

Dangosydd 8 – Cyflwr priddoedd/mawn – LLWYD

Mae data a ddarparwyd yn cynnwys gwybodaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru am nifer y gwahanol fathau o briddoedd yn y tri Pharc Cenedlaethol Cymru. Ar eu pen eu hun, nid ydynt yn darparu'r data tueddiad hirdymor, ond bydd yn cynnig llinell sylfaen ddefnyddiol ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol.

Dangosydd 9 – Cynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaeth – Coetir a Choetir Hynafol a Lled-hynafol – LLWYD

Prin yw'r coed yn y Parc, sy'n adlewyrchu hanes o bobl yn defnyddio ardaloedd coediog blaenorol ar gyfer amaethyddiaeth, pren, ffeibr pren arall a thanwydd. Mae tua 16.5% o'r Parc (22,243.81 hectar) yn cynnal coetir neu blanhigfeydd coedwig masnachol. O hyn, mae ychydig yn llai na 6% o'r Parc (8043.62 hectar) yn goetir llydanddail lled-naturiol neu'n goetir cymysg, gan gynnwys coetir cymysg a blannwyd. Ynghyd â chadwraeth ac adferiad pridd a mawndir, mae cynyddu gorchudd coetir a choed pori yn fodd profedig o liniaru rhyddhad allyriadau nwyon tŷ gwydr a chadw carbon deuocsid atmosfferig (CO2). Fodd bynnag, ni ddylid plannu coed ar draul cynefinoedd presennol pwysig a dylid ei seilio ar y coed iawn yn y lle iawn am y rheswm iawn.

Mae coetiroedd hynafol yn darparu cartref i lawer o wahanol rywogaethau yn y Parc ac maent wedi eu cynnwys fel isgasgliad o goetir llydanddail brodorol.

Dangosydd 10 – Adar Bridio/Nythu – COCH

Mae adar bridio/nythu yn ddirprwy da ar gyfer iechyd yr ecosystem ehangach.

Mae dangosydd adar tir fferm Bannau Brycheiniog (Ffigur 13) yn dangos gostyngiadau o 20-30% dros gyfnod y BBS, yn unol â'r sefyllfa genedlaethol a'r patrwm ar gyfer adar tir fferm yng Nghymru. Mae'r dangosydd coetir (Ffigur 15) yn dangos cynnydd (12% ym Mannau Brycheiniog o'i gymharu â 30% yng Nghymru) ac mae'r dangosydd 'adar eraill' (Ffigur 16) yn sefydlog ar y cyfan (cynnydd o 15% ym Mannau Brycheiniog o'i gymharu â chynnydd o 7% yn nhueddiad cyfatebol Cymru). Y dangosydd ucheldir (Ffigur 14) yw'r eithriad gan fod rhyw fymryn o gynnydd i dueddiad Bannau Brycheiniog (8%), tra bod rhyw fymryn o ostyngiad o 13% i dueddiad Cymru.

Mae data tueddiad 23 mlynedd rhywogaethau ar gyfer 1995-2018 (Atodiad 10) yn dangos:

- bod 8 o rywogaethau ar y rhestr goch wedi lleihau >50% ym Mannau Brycheiniog, a bod 4 o'r rhain yn gysylltiedig â thir fferm, 3 â chynefin ucheldir ac 1 â chynefin trefol; a
- bod 12 o rywogaethau ar y rhestr oren wedi lleihau >25% ym Mannau Brycheiniog.

Dangosydd 11 – Ystlumod – LLWYD

Gall ystlumod fod yn ddangosydd defnyddiol o iechyd amgylcheddol ehangach. Fodd bynnag, mae angen isafswm o safleoedd monitro i gael data ystadegol cadarn. Er nad oes neges eglur eto, darparwyd data o'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer y Rhaglen Genedlaethol Monitro Ystlumod (2019) (lefel Cymru)[1] â chymhariaeth â data'r DU. Nid oes digon o safleoedd monitro yng Nghymru ar gyfer clwydfannau'r haf na'r gaeaf ar hyn o bryd ac mae adroddiadau yn dibynnu ar gyfrifiadau yn yr haf a'r gaeaf i ganfod tueddiadau.

Dangosydd 12 – Rhywogaethau Estron Goresgynnol – LLWYD

[1] https://www.bats.org.uk/our-work/national-bat-monitoring-programme/reports/nbmp-annual-report

Mae Rhywogaethau Estron Goresgynnol yn ddangosydd cymhleth y mae'n anodd ei ddadansoddi'n un mesur. Fodd bynnag, cofnodwyd cynnydd i glymog Japan, Jac y Neidiwr ac efwr enfawr, er y dylid nodi y bu cynnydd hefyd i'r ymdrech gofnodi.

Pennod 2 – Diwylliant a Threftadaeth (Crynodeb o'r Penawdau)



<u>Dangosydd 13 – Hawliau Tramwy</u> – GWYRDD

Bu cynnydd sylweddol o 54% i 66% yn yr hawliau tramwy 'hawdd eu defnyddio' rhwng 2010/2011 a 2018-2019, ac mae canran yr 'hawliau tramwy agored' yn y Parc wedi cynyddu o 68% i 89% rhwng 2011/12 a 2018/19.

Dangosydd 14 – Erydu Ucheldir – LLWYD

Yn disgwyl data.

Dangosydd 15 – Y Gymraeg – COCH

Ceir sgiliau Cymraeg gwael ym Mannau Brycheiniog o'u cymharu â Pharciau Cenedlaethol eraill Cymru (nid oes gan 77.5% o drigolion Bannau Brycheiniog unrhyw sgiliau Cymraeg) ac mae Bannau Brycheiniog hefyd yn perfformio yn wael o'i gymharu â Chymru yn ei chyfanrwydd.

Dangosydd 16 – Digwyddiadau Diwylliannol – GWYRDD

Cynyddodd nifer y digwyddiadau awyr agored/chwaraeon, y digwyddiadau diwylliannol a bwyd a'r sioeau amaethyddol yn y tri chategori rhwng 2005 a 2019.

Dangosydd 17 – Henebion Cofrestredig – COCH

Mae cyfanswm cyffredinol yr Henebion Cofrestredig yn y Parc wedi cynyddu 33% (90) rhwng 2005 a 2019, ond mae canran yr Henebion Cofrestredig sydd mewn cyflwr sefydlog neu ffafriol wedi gostwng 20% rhwng 2014 a 2019. Nid yw'n eglur pam y bu dirywiad o'r fath o ran cyflwr ac mae angen gwneud rhagor o waith i ddeall yr hyn y gellir ei wneud i atal dirywiad pellach.

Dangosydd 18 – Adeiladau Rhestredig – GWYRDD

Cafwyd cynnydd o 241 o Adeiladau Rhestredig yn y Parc rhwng 2005 (cyfanswm o 1,711) a 2019 (cyfanswm o 1,952), cafwyd gostyngiad o 62 o Adeiladau Rhestredig sydd mewn perygl rhwng 2005 a 2014, ac nid oedd unrhyw Adeiladau Rhestredig mewn perygl yn 2019.

Pennod 3 – Pobl a'r Economi (Crynodeb o'r Penawdau)



Dangosydd 19 – Gwariant Twristiaeth – GWYRDD

Mae ffigurau gwariant twristiaeth yn dangos cynnydd parhaus o flwyddyn i flwyddyn i werth twristiaeth i economi leol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog rhwng 2006 a 2017.

Dangosydd 20 – Poblogaeth – COCH

Bannau Brycheiniog yw'r unig Barc Cenedlaethol yng Nghymru y disgwylir i'w boblogaeth gynyddu (1.9%) rhwng 2014 a 2029 cyn dechrau gostwng. Mae canran y boblogaeth 0-19 oed wedi cynyddu rhwng 2011 a 2017, ond felly hefyd y ganran sy'n 65+ oed. Mae amcanestyniadau Llywodraeth Cymru yn dynodi:

- cynnydd o 900 (5%) i nifer yr aelwydydd ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog rhwng 2014 a 2029;
- disgwylir cynnydd o 890 o aelwydydd (19%) i nifer yr aelwydydd un person erbyn 2029, gan ei wneud y math mwyaf cyffredin o aelwyd; a
- rhagwelir gostyngiad o 140 o aelwydydd (11%) i nifer yr aelwydydd pedwar person (o leiaf dau oedolyn ac un plentyn) erbyn 2029.

Mae hwn yn ddangosydd pwysig ar gyfer cyflwr y parc gan ei fod yn debygol o fod yn gysylltiedig â demograffig sy'n heneiddio a gostyngiad i nifer y teuluoedd sy'n byw ac yn gweithio yn y Parc.

Dangosydd 21 – Tai – COCH

£244,099 oedd pris cyfartalog tŷ ar draws Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn 2018, cynnydd o 14% yn y ddeng mlynedd diwethaf. Mae prisiau tai 25% yn uwch ar gyfartaledd nag mewn mannau eraill yn lleol, y tu allan i'r Parc Cenedlaethol. 8.6 yw'r gymhareb pris i enillion, a elwir hefyd y gymhareb fforddiadwyedd, ar gyfer Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (h.y. ar gyfartaledd, mae prisiau tai 8.6 gwaith yn fwy nag incymau cyfartalog). Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd o 5.73 ledled Cymru.

Cwblhawyd cyfanswm o 870 o dai, ar safleoedd mawr a bach, rhwng 2015 a 2019, o'i gymharu â tharged y Cynllun Datblygu Lleol o adeiladu 1,592 erbyn diwedd 2019.

Dangosydd 22 – Cyfraddau Eiddo Gwag yng Nghanol Trefi – COCH

Mae ffigurau cyfraddau eiddo gwag blynyddol ar gyfer 4 tref yn y Parc Cenedlaethol (Aberhonddu, Crucywel, y Gelli Gandryll a Thalgarth) yn dangos mai Aberhonddu sydd â'r gyfradd eiddo gwag uchaf ac mai'r Gelli Gandryll sydd â'r gyfradd eiddo gwag isaf/isaf ar y cyd yn gyson. Ar y cyfan, mae cyfraddau eiddo gwag yn y Parc Cenedlaethol yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 10.3% yn 2019. Fodd bynnag, mae'r holl ganolfannau yn dangos cyfraddau eiddo gwag uwch o flwyddyn i flwyddyn o'r trydydd cyfnod monitro, ac eithrio Talgarth. Mae'r holl ganolfannau manwerthu ar lefelau sy'n galw am weithredu yn y Cynllun Datblygu Lleol.

Dangosydd 23 – Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru – COCH

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yw'r mesur swyddogol o amddifadedd ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru. Mae pump o'r wyth maes ar wahân (Cyflogaeth, Addysg, Mynediad at Wasanaethau, Tai a Diogelwch Cymunedol) yn dynodi tueddiadau negyddol rhwng 2008 a 2014 ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, tra bod tri maes yn unig (Incwm, Iechyd a'r Amgylchedd Ffisegol) yn dynodi tueddiadau cadarnhaol.

Pennod 1 – Natur a Hinsawdd

Cyflwyniad

12. Mae natur a'i chyfraniadau hanfodol at bobl, sydd at ei gilydd yn ymgorffori swyddogaethau a gwasanaethau bioamrywiaeth ac ecosystem, yn dirywio yn fyd-eang[2], yng Nghymru[3] a thrwy oblygiad, yn y Parc Cenedlaethol. Caiff hyn ei waethygu gan effeithiau niweidiol y newid yn yr hinsawdd. Wrth i ni echdynnu a manteisio yn fwy ar fyd natur, mae hyn yn tanseilio natur ei hun a gallu'r byd naturiol i adfer yn sgil aflonyddwch. Mae'r byd naturiol yn dirywio yn gyflymach nag ar unrhyw adeg yn hanes pobl erbyn hyn. Newidiadau i ddefnydd tir, ecsbloetio uniongyrchol, newid yn yr hinsawdd, llygredd a Rhywogaethau Estron Goresgynnol yw'r achosion cryfaf o chwalfa natur.
13. Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (a elwir hefyd yn safleoedd Natura 2000), Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) yw'r safleoedd bywyd gwyllt pwysicaf yn y Parc. Mae tua 19% o arwynebedd y Parc yn SoDdGA, ac eto dim ond 10% o SoDdGA yn y Parc sydd wedi'u rheoli'n briodol[4] ac mae 34% mewn cyflwr anffafriol.
14. Er ei bod yn hysbys bod y colledion mwyaf i fioamrywiaeth wedi digwydd y tu allan i'r rhwydwaith safleoedd dynodedig, yn y cefn gwlad ehangach[5], yn absenoldeb tystiolaeth i'r gwrthwyneb, mae'n debygol bod cyflwr y SoDdGA yn adlewyrchu cyflwr gweddill cynefinoedd a rhywogaethau'r Parc. Tybir felly bod y rhan fwyaf o gynefinoedd a rhywogaethau'r Parc mewn cyflwr anffafriol. Mae cyflymder eu hadferiad yn dibynnu ar gyfradd ac effeithiolrwydd ymyriadau dynol cadarnhaol (a pheidio ag ymyrryd).
15. Bydd Adroddiad Sefyllfa Byd Natur yn cael ei ddatblygu yn y Cynllun Adfer Natur[6] ar gyfer Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Hefyd, bydd cyflwr safleoedd dynodedig (SoDdGA, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig), y Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol annynodedig a'r Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur, safleoedd coetir hynafol lled-naturiol a safleoedd coetir hynafol a blannwyd, a statws a dosbarthiad newidiol poblogaeth ystlumod, tir fferm, gwlypdir, adar gaeafu a bridio y Parc, yn cynnig darlun cyfansawdd os nad cyflawn o gyflwr newidiol natur. Bydd amrywiaeth ecolegol newidiol, cyfoethogrwydd rhywogaethau a phresenoldeb a mynychder rhywogaethau dangosol, yn enwedig ystlumod ac adar, ond hefyd (yn y dyfodol) grwpiau pryfed allweddol, a mynychder a dosbarthiad Rhywogaethau Estron Goresgynnol, yn cael eu defnyddio i asesu pa mor gyflym y mae natur y Parc yn adfer mewn ymateb i amcanion a bennwyd a chamau a gymerwyd.
16. Nodir bylchau penodol yn y cyflwyniad i bob pennod. Byddwn yn parhau i geisio mynd i'r afael â'r bylchau hyn mewn data mewn amrywiaeth o ffyrdd:
    - Datganiadau Ardal

[2] Adroddiad Asesu Byd-eang IPBES ar Wasanaethau Bioamrywiaeth ac Ecosystem 2019
[3] Sefyllfa Byd Natur 2019 / https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-49884132
[4] Cyfoeth Naturiol Cymru
[5] Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2016
[6] https://www.bannaubrycheiniog.org/amgylchedd/cynllun-gweithredu-adfer-natur/

- Ymgysylltu â Rhanddeiliaid
- NRAP (2019)
- Asesiad Cymeriad Tirwedd
- Data Cyfrifiad
- Data Awdurdod Lleol
- Prosiect Mega-ddalgylch Dŵr Cymru
- Prosiect Monitro Arwyddion Hanfodol

17. Mae Datganiadau Ardal, sy'n un o ofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, yn nodi'r cyrff cyhoeddus (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) a allai helpu i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau, y peryglon a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn eu hardaloedd, fel y nodwyd mewn adroddiadau Cyflwr Adnoddau Naturiol. Ceir disgwyliad rhesymol felly o rannu data drwy'r Ddyletswydd a62 [7] i gyrff ac unigolion penodol roi sylw i ddibenion Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.
18. Mae Prosiect Monitro Arwyddion Hanfodol yn rhaglen fonitro newydd arloesol i'w defnyddio ar gyfer Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Bydd gan hon y nod o chwyldroi'r ffordd y caiff Parciau Cenedlaethol y DU eu monitro a bydd hefyd yn darparu gwybodaeth wedi'i thargedu yn ymwneud ag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, arferion rheoli tir, a phobl yn y Parc, ei natur a'i fioamrywiaeth. Bydd y strategaeth fonitro hon yn cael ei chysylltu â Chynllun Adfer Natur Partneriaeth Natur Leol Bannau Brycheiniog. Bydd Arwyddion Hanfodol yn helpu i lywio polisïau yn y dyfodol yn ymwneud â natur a bioamrywiaeth yng Nghymru, a sut y bydd asedau cyfalaf naturiol yn cael eu gwella a'u rheoli yn y dyfodol.
19. Mae bylchau o'r fath mewn data ym Mhennod 1 yn cynnwys:
    - Clwydfannau Mamolaeth Ystlumod – darparwyd data o asesiad HOV2 yr A465 (gweler Atodiad 2). Er bod y rhain wedi'u lleoli yn y parc, maent wedi'u cyfyngu i ardaloedd penodol iawn ac fe'u casglwyd ar gyfnod penodol yn unig.
    - Amonia Nwyol – dangosydd a allai fod yn ddefnyddiol ond ceir diffyg pwyntiau casglu data yn ardal y parc – gweler Atodiad 3
    - Echdynnu dŵr blynyddol (yn disgwyl data gan Cyfoeth Naturiol Cymru)
    - Perygl llifogydd – nid map yn unig ond gyda dehongliad a ffigurau ynghylch yr effaith ar aneddiadau/datblygiadau, data Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch rhybuddion, digwyddiadau, ac ati
    - Lefelau carbon
    - Cyflenwad a defnydd ynni
    - Gosodiadau ynni adnewyddadwy
    - Glawiad
    - Gorchudd/diwrnodau eira – y Swyddfa Dywydd
    - Allyriadau nwyon tŷ gwydr
20. Nodwyd y dangosyddion canlynol felly i'w defnyddio ym Mhennod 1 Adroddiad Cyflwr y Parc 2020:

[7] Deddf yr Amgylchedd 1995

Adroddiad Cyflwr y Parc 2020 DANGOSYDDION	
Pennod 1 – Natur a Hinsawdd	
1	Cyflwr SoDdGA Daearegol
2	Cyflwr SoDdGA Biolegol
3	Natura 2000
4	Ansawdd Dŵr
5	Perygl Llifogydd
6	Gollyngiad Afonydd
7	Ansawdd Aer
8	Cyflwr Priddoedd/Mawn
9	Cynefinoedd a Rhywogaethau Blaenoriaeth – Coetir a Choetir Hynafol Lled-naturiol
10	Adar Bridio/Nythu
11	Ystlumod
12	Rhywogaethau Estron Goresgynnol

Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)

21. Dynodiad cadwraeth ffurfiol ar gyfer pwysigrwydd daearegol neu fiolegol yw Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Cânt eu gwarchod i lefel uchel i ddiogelu ystod, ansawdd ac amrywiaeth cynefinoedd, rhywogaethau a nodweddion daearegol ym mhob rhan o Gymru. Maent yn gonglfeini gwaith cadwraeth, gan ddiogelu craidd ein treftadaeth naturiol. SoDdGA yw'r safleoedd pwysicaf i dreftadaeth naturiol Cymru ac maent yn ddangosydd defnyddiol ar gyfer cyflwr iechyd naturiol yn y parc.
22. Yn 2017, roedd cyfanswm o 78 SoDdGA naill ai yn lleol, yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn y Parc Cenedlaethol. Mae Ffigur 1 yn dangos cymhariaeth o gyflwr pob un o'r safleoedd SoDdGA rhwng 2014 a 2017[8]. Cafwyd gostyngiad o ddau safle i nifer y safleoedd sydd mewn cyflwr ffafriol, a chynnydd o ddau i nifer y safleoedd sydd mewn cyflwr anffafriol.
23. Ceir 197 o nodweddion yn y 78 SoDdGA hyn ac mae 163 o'r rhain yn rhai biolegol a 34 yn rhai daearegol. Mae Dangosyddion 1 a 2 yn trafod y rhain ymhellach.
24. Mae Dangosydd 3 yn nodi cyflwr nodweddion ACA yn y Parc. Mae pob ACA, yn ôl ei diffiniad, yn SoDdGA hefyd, felly caiff cyflwr nodweddion ACA ei ystyried fel isgasgliad o SoDdGA â % berthnasol i ddangos cyflwr ffafriol/anffafriol.

[8] Adolygiad Cyflym Cyfoeth Naturiol Cymru o'r Parc



Ffigur 1 Cyflwr Safleoedd SoDdGA rhwng 2014 a 2017

Dangosydd 1 – Cyflwr SoDdGA Daearegol

25. Gellir crynhoi cyflwr daearegol ffafriol ar safleoedd unigol ar draws pob safle i gynnig syniad o ba mor agos yw safleoedd i Statws Cadwraeth Ffafriol. Mae hyn:
    - pan fydd data cyflwr ynghylch yr amlygiadau dan sylw yn dynodi eu bod yn cael eu cynnal ar sail hirdymor fel cyfraniad dichonol at adnoddau daearegol y Parc
    - pan nad yw'r lefel y mae pob enghraifft ddaearegol ar gael yn cael ei lleihau nac yn debygol o gael ei lleihau yn y dyfodol agos
    - pan fo amrywiaeth ddigon mawr o enghreifftiau o'r fath ar sail hirdymor a'i bod yn debygol y bydd hynny yn parhau
26. O'r 197 o nodweddion SoDdGA, dynodir 34 nodwedd ar sail eu pwysigrwydd daearegol.



Ffigur 2 Cyflwr nodweddion SoDdGA Daearegol

27. Mae Ffigur 2 yn dangos, yn 2017, o'r 34 o nodweddion, fod 88% (30) mewn cyflwr ffafriol, bod 3% (1) mewn cyflwr anffafriol, a bod 9% (3) yn anhysbys. Edrychwyd ar yr un 34 nodwedd yn 2014 pan roedd 91% (31) o nodweddion mewn cyflwr ffafriol, 3% (1) mewn cyflwr anffafriol, a 6% (2) yn anhysbys.
28. Mae hyn yn dangos bod cyflwr SoDdGA yn y parc yn gymharol sefydlog, gyda'r un nifer a chanran mewn cyflwr anffafriol, un yn llai mewn cyflwr ffafriol, ac yn un fwy lle mae'r cyflwr yn anhysbys. Gellid ystyried bod hyn yn gadarnhaol, gan nad oes unrhyw SoDdGA mewn cyflwr sy'n gwaethygu, ond gan fod yr un nifer mewn cyflwr anffafriol a bod % y nodweddion mewn cyflwr ffafriol wedi gostwng, mae hyn yn tynnu sylw at y ffaith na wnaeth cyflwr nodweddion SoDdGA daearegol yn y Parc wella rhwng 2014 a 2017.
29. Fodd bynnag, mae'r tueddiad tymor hwy yn fwy cadarnhaol oherwydd, o'i gymharu â ffigurau 2006, mae cyflwr nodweddion daearegol wedi gwella. Yn 2006, adroddwyd bod 37 o wahanol nodweddion o bwysigrwydd daearegol yn y Parc. O'r rhain, roedd 30% (11) mewn cyflwr ffafriol, roedd 51% (19) mewn cyflwr anffafriol, ac roedd 19% (7) yn anhysbys.

Dangosydd 2 – Cyflwr SoDdGA Biolegol



Ffigur 3 Cyflwr nodweddion SoDdGA Biolegol

30. O'r 197 o nodweddion SoDdGA, dynodir 163 ar sail eu pwysigrwydd biolegol.
31. Mae Ffigur 3 yn dangos, yn 2017, fod 54% (88) mewn cyflwr ffafriol, bod 34% (55) mewn cyflwr anffafriol a bod 12% (20) yn anhysbys.
32. O gymharu hyn, yn 2014 roedd 55% (90) mewn cyflwr ffafriol, roedd 33% (54) mewn cyflwr anffafriol, ac roedd 12% (19) yn anhysbys.
33. Yn 2006, roedd 82 o nodweddion o bwysigrwydd biolegol yn y Parc Cenedlaethol. O'r rhain, roedd 29% (24) mewn cyflwr ffafriol, roedd 55% (45) mewn cyflwr anffafriol, roedd 1% (1) wedi'u dinistrio yn rhannol ac roedd 15% (12) yn anhysbys.
34. Mae'r ffigurau hyn yn amlygu:
    - Bod llawer mwy o nodweddion SoDdGA yn 2017 o'i gymharu â 2006
    - Bod canran uwch o nodweddion mewn cyflwr ffafriol yn 2017 o'i gymharu â 2006
    - Bod canran is o nodweddion SoDdGA mewn cyflwr anffafriol yn 2017 o'i gymharu â 2006
    - Bod mwy o nodweddion mewn cyflwr anffafriol yn 2017 o'i gymharu â 2006 (oherwydd y cynnydd cyffredinol i nifer y nodweddion)
35. Wrth gymharu ffigurau 2014 â ffigurau 2017 a gafwyd trwy ddefnyddio'r un nifer o nodweddion biolegol, mae cyflwr SoDdGA wedi gwaethygu rhyw fymryn, gyda llai o nodweddion mewn cyflwr ffafriol yn 2017 o'i gymharu â 2014, a nifer a chanran uwch mewn cyflwr anffafriol yn 2017 o'i gymharu â 2014.
36. Pe baem yn defnyddio data 2006 fel llinell sylfaen ar gyfer y data diweddaraf a gofnodwyd yn 2017/2018, gellid tybio bod cyflwr y Parc o ran cyflwr SoDdGA yn dda, ar gyfartaledd. Fodd bynnag, nid yw hwnnw yn gasgliad priodol. Mae 34% o safleoedd mewn cyflwr anffafriol a dim ond 10% o safleoedd sydd wedi'u rheoli'n briodol. Hefyd, bu dirywiad i gyflwr SoDdGA rhwng 2014 a 2017, sy'n rhywbeth y bydd yn rhaid ei reoli yn ofalus yn y dyfodol i sicrhau nad yw cyflwr y safleoedd dynodedig hyn yn gwaethygu.

Dangosydd 3 – safleoedd Natura 2000

37. Rhwydwaith o safleoedd bridio a gorffwyso craidd ar gyfer rhywogaethau prin a dan fygythiad, a rhai mathau o gynefin naturiol prin sydd wedi eu gwarchod ynddynt eu hunain, yw Natura 2000. Mae'n ymestyn ar draws 28 gwlad yr UE, ar y tir ac ar y môr. Nod y rhwydwaith yw sicrhau goroesiad hirdymor rhywogaethau a chynefinoedd mwyaf gwerthfawr a dan fygythiad Ewrop, sydd wedi'u rhestru o dan y Gyfarwyddeb Adar a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd.[9]
38. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi paratoi Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd[10] ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol sy'n asesu safleoedd Ewropeaidd o fewn (neu'n rhannol o fewn) ffiniau'r parc yn ogystal â byffer o 15 cilometr. Dewiswyd y safleoedd canlynol:
    - Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Blaen Cynon
    - ACA Bannau Brycheiniog
    - ACA Coed y Cerrig
    - ACA Coedydd Nedd a Mellte
    - ACA Cwm Cadlan
    - ACA Coedydd Cwm Clydach
    - ACA Llyn Syfaddan
    - ACA Afon Wysg
    - ACA Afon Gwy
    - ACA Coetir Pen y Fâl
    - ACA Safleoedd Ystlumod Brynbuga
    - ACA Glaswelltir Aberbargoed
    - ACA Cernydd Carmel
    - ACA Cwm Doethie Mynydd Mallaen
    - ACA Drostre Bank
    - ACA Mynydd Epynt
    - ACA Rhos Goch
    - ACA Afon Tywi
39. Mae tabl yn nodi safleoedd Natura 2000 a chyflwr nodweddion ar gael yn Atodiad 4. Fe ddaw o Atodiad 2 yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (2019) ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'n nodi cyflwr pob un o nodweddion dynodedig y safleoedd a fydd yn cael eu hasesu. Bydd hyn yn cynnig llinell sylfaen ddefnyddiol ar gyfer asesu nodweddion pob safle yn adroddiadau'r dyfodol.
40. Mae Atodiad 5 yn darparu data Nodweddion ACA yn y Parc a'u cyflwr a ddarparwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (2020).
41. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi llunio adroddiadau cyflwr yn y gorffennol, rhai yn dyddio yn ôl i fis Mawrth 2010, er y dylid cydnabod nad ydynt yn cynnal asesiad o gyflwr safleoedd mwyach.
42. Mae Ffigur 4: Nodweddion ACA yn y Parc a'u Cyflwr yn dangos bod y rhan fwyaf o nodweddion ACA yn y Parc mewn cyflwr anffafriol. O'r 17,918.85 hectar o

[9] https://ec.europa.eu/environment/nature/natura2000/index_en.htm
[10] Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd - https://api.beacons-npa.gov.uk/ldp/download?doc=685771

nodweddion ACA yn y Parc, mae 7,806.53 hectar (44%) mewn cyflwr ffafriol ac mae 10,112.31hectar (56%) mewn cyflwr anffafriol.



Ffigur 4 Statws Nodweddion ACA yn y Parc (Arwynebedd mewn Hectarau)

Dangosydd 4 – Ansawdd Dŵr

43. Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn sefydlu fframwaith ar gyfer diogelu, gwella a defnyddio yn gynaliadwy gyrff dŵr wyneb (afonydd, nentydd, ffrydiau, llynnoedd, aberoedd, camlesi a dyfroedd arfordirol) a chyrff dŵr daear. Ei diben yw atal dirywiad a gwella statws ecosystemau dyfrol, hybu defnydd cynaliadwy o ddŵr, lleihau llygredd mewn dŵr daear a chyfrannu at liniaru effeithiau llifogydd a sychderau.
44. Caiff statws corff dŵr ei fesur yn unol â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr sy'n ei gwneud yn ofynnol cofnodi amrywiaeth eang o ffactorau ffisegol, cemegol a biolegol. Mae'r dosbarthiad blynyddol o gyrff dŵr wyneb, dŵr daear a chyrff dŵr arfordirol yn categoreiddio eu cyflwr fel uchel, da, cymedrol, gwael neu wael iawn. Mae defnydd tir gan gynnwys amaethyddiaeth, coedwigaeth, echdynnu dŵr, diwydiant a datblygiad adeiledig yn effeithio ar y statws hwn yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol. Mae'n ofynnol i'r rhai sydd wedi cytuno i gyd-fynd â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn y DU sicrhau statws ecolegol da neu well erbyn 2027.
45. Daeth y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr i rym ym mis Rhagfyr 2000, ac ar 1 Ebrill 2014, daeth Cyfoeth Naturiol Cymru yr Awdurdod cymwys dros weithredu'r Gyfarwyddeb.
46. Caiff statws corff dŵr ei seilio ar dros 30 o wahanol ddangosyddion a chânt eu grwpio yn ôl statws cemegol neu ecolegol, sydd, o'u cyfuno, yn rhoi statws cyffredinol corff dŵr.
47. Mae Atodiad 6 yn dangos statws cemegol 6 chorff dŵr yn y Parc Cenedlaethol ac mae Atodiad 7 yn dangos eu statws ecolegol, ac yna eu cyflwr cyffredinol (cyfunir y

ddau dabl yn Atodiad 8). Un mater critigol i'r parc yw mai Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Llynfi a Llyn Syfaddan, sydd wedi'i chysylltu yn hydrolegol ag ACA Afon Gwy, yw'r unig Barth Perygl Nitradau yn y parc ac eto mae'r data yn canolbwyntio yn fwy ar Afonydd Wysg a Thywi.

48. Mae'r elfennau ansawdd biolegol a'r elfennau ansawdd hydromorffolegol a fesurir wrth asesu statws dŵr ar gael yn Atodiad 9.
49. Ni aseswyd y rhan fwyaf o'r cyrff dŵr a arolygwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru tan 2013. Ni aseswyd y cyrff dŵr rhwng 2009 (llinell sylfaen) a 2012. Roedd gan yr holl gyrff dŵr statws cemegol 'Da' rhwng 2013 a 2015, a chyflawnodd pob un ohonynt statws 'Uchel' erbyn 2017. Roedd pob corff dŵr wedi dirywio i statws 'Da' erbyn 2018.
50. O'u cymharu â llinell sylfaen 2009, mae dau o'r cyrff dŵr wedi gwella o gymedrol i dda, mae dau wedi aros yr un fath (arhosodd un yn dda, arhosodd un yn gymedrol), ac mae un wedi dirywio o dda i gymedrol.
51. Caiff statws cyffredinol dyfroedd wyneb ei benderfynu gan werth is statws ecolegol a chemegol corff dŵr, felly os bydd un darlleniad yn dda a'r llall yn gymedrol, yna byddai'r statws cyffredinol yn gymedrol. I gyflawni'r nod cyffredinol o statws dŵr wyneb da, mae'r Gyfarwyddeb yn ei gwneud yn ofynnol bod dyfroedd wyneb o statws ecolegol da a statws cemegol da neu well. I
52. Cyflawnodd 3 o'r 6 chorff dŵr yn y parc statws cyffredinol da. Cyflawnodd y 3 chorff dŵr arall statws cymedrol yn unig. Bu gwelliant felly ers data sylfaenol 2009, pan gyflawnwyd statws da gan 2 gorff dŵr yn unig. Fodd bynnag, ni fu gwelliant ers 2017, nid yw'r un corff dŵr wedi gwella.

Dangosydd 5 – Perygl Llifogydd

53. Ceir tri math o lifogydd: llifogydd arfordirol/llanwol, llifogydd afonol a llifogydd dŵr wyneb trwy lawiad gormodol.[11]
54. Mae Nodyn Cyngor Technegol 15 Llywodraeth Cymru ar Lifogydd (TAN 15) yn cynnwys Mapiau Cyngor Datblygu sy'n diffinio tri pharth cyngor datblygu fel a ganlyn:
    - Parth A: Ystyrir mai ychydig neu ddim risg sydd o lifogydd afonol neu lanwol/arfordirol.
    - Parth B: Ardaloedd y gŵyr eu bod wedi bod yn destun llifogydd yn y gorffennol yn ôl tystiolaeth dyddodion gwaddodol.
    - Parth C: Ar sail amlinelliad o lifogydd eithafol, yn hafal i 0.1% neu'n uwch (afon, llanw neu arfordirol) (h.y.: siawns o fwy nag 1 mewn 1,000 o lifogydd mewn unrhyw flwyddyn unigol).
55. Mae Parth C wedi ei rannu yn C1 a C2.
    - Ardaloedd o'r gorlifdir sydd wedi eu datblygu ac sy'n cael eu gwasanaethu gan seilwaith sylweddol, gan gynnwys amddiffynfeydd rhag llifogydd yw C1.
    - Ardaloedd o'r gorlifdir sydd heb seilwaith sylweddol i amddiffyn rhag llifogydd yw C2.
56. Mae Ffigur 5 isod (map TAN 15), yn dangos meintiau Parthau A, B a C yn y Parc (glas tywyll). Mae'n cynnwys cronfeydd dŵr a'u dalgylchoedd, afonydd ac ardaloedd trefol.[12]

[11] https://www.assembly.wales/NAfW%20Documents/qg11-0030.pdf%20-%202010202011/qg11-0030-English.pdf

[12] Mae Cyfoeth Naturiol Cymru ar fin cyhoeddi set ddata newydd *'Asesiad Perygl Llifogydd Cymru'* a fydd, am y tro cyntaf, yn ymgorffori tybiaethau newid yn yr hinsawdd i fodelu asesiad perygl llifogydd Cymru. Bydd y set ddata yn cael ei chyhoeddi yn ddiweddarach yn 2020, ochr yn ochr â chyhoeddi diweddariad Llywodraeth Cymru o Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl Llifogydd.



Ffigur 5 Map llifogydd a TAN 15 Llywodraeth Cymru

57. Mae Ffigur 6 isod yn nodi arwynebedd y Parc mewn hectarau sy'n rhan o barth llifogydd C2. O'i fonitro dros amser, bydd y ffigur hwn yn cynnig dangosydd defnyddiol gan ei fod yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch lleoliadau datblygu derbyniol. Mae'n ofynnol darparu asesiad o ganlyniadau llifogydd ar gyfer datblygiad arfaethedig yn yr ardal hon.
58. Mae deall yr wybodaeth yn gofyn am ddealltwriaeth o seilwaith amddiffyn rhag llifogydd, a fydd yn newid dros amser. Dylid nodi bod yr ardal C2 sydd mewn perygl hefyd yn debygol o newid dros amser mewn ymateb i'r newid yn yr hinsawdd. Ar hyn o bryd, mae rhagolygon amrywiol yn bodoli o gynnydd o 30% - 35% i lawiad yn ystod y gaeaf dros yr 50 mlynedd nesaf[13].
59. Rhoddodd yr Adroddiad Cyflwr y Parc blaenorol (2014) wybodaeth am lifogydd a gymerwyd o gyfrifiad 2011. Ni fydd hon yn cael ei diweddaru gyda data cyfatebol tan i'r cyfrifiad nesaf gael ei gyhoeddi ar ôl 2021. Darparwyd y data yn y tabl isod gan Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Mawrth 2020.

[13] https://www.theguardian.com/environment/2020/feb/23/uk-flood-defence-plans-inadequate-warn-scientists

NATIONAL PARK NAME	COUNT	AREA (Ha)
Brecon Beacons	38	5322.48
Pembrokeshire Coast	145	5357.59
Snowdonia	289	18415.00

Ffigur 6 Perygl Llifogydd mewn Hectarau

Dangosydd 6 – Gollyngiad Afonydd

60. Mae gollyngiad blynyddol a thymhorol yn adlewyrchu patrymau glawiad a natur agored i newidiadau tymhorol (sychder a dilyw) afonydd, a chanlyniadau dilynol i ecoleg afonydd a glannau afon a'r dŵr sydd ar gael i'w echdynnu.
61. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn mesur lefelau gollyngiad afonydd trwy gasglu data o wahanol orsafoedd monitro sydd wedi'u lleoli ar hyd afonydd ledled Cymru. Ceir nifer o orsafoedd monitro wedi'u lleoli yn y Parc Cenedlaethol.



Ffigur 7 Cyfradd Llif Gyfartalog Flynyddol Afon Wysg

62. Mae Ffigur 7 yn dangos cyfradd llif gyfartalog flynyddol afon Wysg 2010 - 2018. Mae'r graff yn dangos bod cyfradd y llif yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, a chofnodwyd y gyfradd lif isaf o'r cyfnod hwn yn 2010, sef 19.48 m3/e, a'r gyfradd llif uchaf yn 2014, sef 38.07 m3/e. Er bod lefelau gollyngiad yr afon yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, cafwyd cynnydd ar y flwyddyn flaenorol y llynedd (2018).
63. Mae monitro lefelau gollyngiad afonydd yn bwysig oherwydd yr effeithiau posibl ar ddangosyddion eraill a nodir yn yr adroddiad hwn fel ansawdd dŵr a bioamrywiaeth. Gall cyfradd llif yr afon bennu pa fath o organebau sy'n gallu byw yn yr afon, a gall effeithio ar faint o silt a gwaddodion sy'n cael eu cludo ar hyd yr afon.
64. Mae monitro lefelau gollyngiad afonydd hefyd yn ddangosydd da o gyflwr y parc yng nghyd-destun ehangach y newid yn yr hinsawdd.

Dangosydd 7 – Ansawdd Aer

65. Mae Ffigur 8 isod yn dangos y dangosyddion amlygiad ansawdd aer NO2 atmosfferig ar gyfer Cymru, a'r 7 Awdurdod Lleol sy'n rhan o'r Parc Cenedlaethol. Yn anffodus, ni chasglwyd data ynghylch dangosyddion amlygiad ansawdd aer yn benodol ar gyfer ardal y Parc Cenedlaethol, dim ond ar gyfer y 7 Awdurdod Lleol unigol sy'n rhan o'r Parc Cenedlaethol.



Ffigur 8 Dangosyddion Amlygiad Ansawdd Aer NO2

66. Mae Ffigur 8 yn dangos bod dangosyddion amlygiad ansawdd aer yn y 7 ardal Awdurdod Lleol yn ogystal â Chymru yn ei chyfanrwydd wedi gostwng rhwng 2009 a 2017, gan ddynodi gwelliant i ansawdd aer. Mae'r 2 Awdurdod Lleol sy'n ffurfio'r rhan fwyaf o'r Parc, Powys a Sir Gaerfyrddin (sef tua 66.1% ac 16.7% o arwynebedd y Parc, yn y drefn honno), yn sylweddol is na'r Awdurdodau Unedol eraill.
67. Er bod y data NO2 yn dangos tueddiad cadarnhaol, mae Atodiad 3 yn dangos tueddiad data andwyol ar gyfer allyriadau amonia nwyol sy'n dangos cynnydd sydyn ar ôl 2013.

Dangosydd 8 – Cyflwr Priddoedd/Mawn

68. Fel golau'r haul a dŵr, mae priddoedd yn hanfodol i'r holl fywyd ar y ddaear. Heb weithredoedd malurysor a microbau sy'n gweithio gyda'r elfennau i ddadelfennu sylweddau mwynau, planhigion ac anifeiliaid, nid yw priddoedd yn cael eu ffurfio, nid yw maethynnau yn cael eu hailgylchu, ac nid yw bywyd yn parhau. Mae priddoedd mewn cyflwr da yn storio maethynnau a mwynau (gwrtaith naturiol), nwyon, dŵr, a bioamrywiaeth pridd, gan gynnwys infertebratau, microbau, a ffwng. Mae'r berthynas symbiotig rhwng priddoedd iach a'r deyrnas blanhigion yn sail i bob gwe fwyd daearol a chylch bywyd. Mae priddoedd sydd mewn cyflwr da yn darparu gwasanaethau ecosystem, fel dŵr glân i'w echdynnu a chadw dŵr i liniaru llifogydd. Mae erydiad a chywasgiad pridd, pwysau pori a llygredd gwasgaredig o dir fferm yn broblemau sylweddol ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, sy'n cael effaith niweidiol ar yr holl fanteision hyn.
69. Mae Ffigur 9 yn dangos dosbarthiad mawn dwfn yn y Parc. Mae mawn dwfn yn cyfeirio at ddyfnder mawn sy'n fwy na 40cm. Mae'n ymgorffori amrywiaeth o wahanol fathau o fawn, gan gynnwys gorgorsydd, mignenni dyffryn a mignenni basn. Mae mawndiroedd yn dal mwy o garbon nag unrhyw fath arall o gynefin ac yn cynnal cymunedau planhigion ac anifeiliaid pwysig, felly mae sicrhau eu bod mewn cyflwr da yn hanfodol i liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac adfer natur. Mae mawndiroedd sydd mewn cyflwr da yn amsugno carbon deuocsid o'r aer ac yn ei storio o dan y ddaear. Fodd bynnag, os ydynt mewn cyflwr gwael, mae'r mawn yn erydu, yn ocsidio ac yn pydru, gan ryddhau carbon i'r aer. Felly, mae dosbarthiad a chyflwr mawn yn ddangosydd hanfodol i'w fonitro gan y gall effeithio yn sylweddol ar lefelau carbon a chyflwr natur yn y Parc Cenedlaethol.
70. Hwn yw'r Adroddiad Cyflwr y Parc cyntaf sydd wedi cynnwys dangosydd ar gyflwr a dosbarthiad mawn, felly nid oes unrhyw ddata cymharol. Nod cynlluniau fel prosiect Mawndiroedd Cymru, sy'n gynllun ar y cyd rhwng Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Ymddiriedolaethau Natur a Cyfoeth Naturiol Cymru yw diogelu, cynnal a gwella rhai o fawndiroedd pwysicaf Cymru i helpu i reoli cynefinoedd mawndir Cymru yn gynaliadwy unwaith eto. Efallai y bydd argraffiad nesaf yr adroddiad hwn yn gallu monitro pa mor llwyddiannus y bu'r prosiect hwn. Mae'r tabl data isod yn cynnwys gwybodaeth a ddarparwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru am faint o wahanol fathau o bridd sydd yn y tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru a bydd yn cynnig llinell sylfaen ddefnyddiol ar gyfer adroddiadau'r dyfodol.

NATIONAL PARK NAME	SOIL TYPE				
	Deep peaty soil	Modified deep peaty soil	Shallow peaty soil	Soil with peaty pockets	Grand Total
Brecon Beacons	4397.61	2881.27	37668.73	13902.35	58849.95
Pembrokeshire Coast	297.56	84.22	6365.23	1864.43	8611.45
Snowdonia	33959.59	4436.23	71708.10	9290.93	119394.86
Grand Total	38654.76	7401.72	115742.06	25057.71	186856.25

Ffigur 9 Parciau Cenedlaethol – Cyfanswm y Mawndir – Arwynebedd (Hectarau) (Cyfoeth Naturiol Cymru 2020)



Ffigur 10 Dosbarthiad Mawn

Dangosydd 9 – Cynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaeth – Coetir a Choetir Hynafol Lled-naturiol

71. Mae tua 16.5% o'r Parc (22,243.81 hectar) yn cynnal coetir neu blanhigfeydd coedwig masnachol. O'r arwynebedd hwn, mae ychydig yn llai na 6% o'r Parc (8043.62 hectar) yn goetir llydanddail lled-naturiol neu'n goetir cymysg, gan gynnwys coetir cymysg a blannwyd.
72. Darparodd y Gwasanaeth Gwybodaeth Bioamrywiaeth ffigurau arwynebedd cynefin wedi'u diweddaru gan ddefnyddio gwybodaeth Cyfnod 1 Cyfoeth Naturiol Cymru 2014. Mae'r wybodaeth berthnasol am goetiroedd wedi'i hechdynnu a'i darparu yn ffigur 11 isod.

Habitat		Overall area from 2014 phase 1	
Code	Description	hectares	acres
WOODLAND			
A.1.1.1	semi- natural broadleaved woodland	7781.34	19219.92
A.1.1.2	plantation broadleaved woodland	76.19	188.18
A.1.2.2	plantation coniferous woodland	10576.65	26124.33
A.1.3.1	semi-natural mixed woodland	0.06	0.16
A.1.3.2	plantation mixed woodland	262.22	647.69
A.2.1	Coniferous semi-natural	2678.23	6615.23
A.4	Recently-felled woodland	37.40	92.38
A.4.1	Recently-felled woodland Broad-leaved	2.10	5.18
A.4.2	Recently-felled woodland Coniferous	828.30	2045.91
A.4.3	Recently-felled woodland Mixed	1.31	3.24
(A) Total woodland		**22243.81**	**54942.21**

Ffigur 11 Ffigurau arwynebedd cynefin coetir (Data Cyfnod 1 Cyfoeth Naturiol Cymru 2014)

73. Mae gan goetiroedd hynafol lawer o nodweddion unigryw a phriddoedd heb eu haflonyddu sy'n llawn maethynnau a pharhad gorchudd coetir ers cyn 1600. Fel y cyfryw, maent yn darparu cartref i lawer o wahanol rywogaethau gan gynnwys ffwng, pryfed, microbau, mamaliaid bach, adar ac amffibiaid. Mae rhai rhywogaethau i'w gweld mewn coetir hynafol yn unig, ac maent yn gartref i fwy o rywogaethau sydd dan fygythiad nag unrhyw gynefin arall.
74. Nid yw Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn arbennig o goediog. Ceir tua 95,000 hectar o goetir hynafol yng Nghymru, ac mae 6,900 hectar (7%) o hyn yn y Parc Cenedlaethol.
75. Cofnododd adroddiad cyflwr y Parc 2006 7,725 hectar o goetir hynafol, sy'n awgrymu y collwyd 825 hectar neu 10.7% o goetir hynafol. Nid yw'n eglur o ble mae'r data hyn wedi dod felly ni allwn eu defnyddio fel llinell sylfaen a dylid eu darllen er gwybodaeth yn unig.



Ffigur 12 Coetir Hynafol

Dangosydd 10 – Adar Bridio/Nythu

76. Mae adar yn ddangosyddion cryf o iechyd amgylcheddol[14]. Mae llawer o adar ar frig neu'n agos at frig cadwyni bwyd daearol a morol ac mae deall yr ysgogiadau a'r effeithiau ar eu poblogaethau yn rhoi gwybodaeth i ni am statws mathau eraill o fywyd gwyllt. Mae adroddiad Sefyllfa Adar yng Nghymru 2018 [15] yn cynnwys mesuriadau o bwysigrwydd Cymru o ran cynnal poblogaethau bridio'r DU o'r Frân Goesgoch (76%), y Gwybedog Brith (69%), y Tingoch (47%) a Bod y Mêl (47%) yn ogystal â chyfrannau sylweddol o boblogaethau gaeafu'r DU o rywogaethau arfordirol fel y Fôr-hwyaden Ddu a'r Wylog yn ogystal ag ymwelwyr mwy prin y gaeaf fel Bronrhuddyn y Mynydd a'r Cigydd Mawr.
77. Lluniwyd data ynghylch cyflwr poblogaethau adar gwyllt daearol ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a'r cyffiniau (clustogfa o 10 cilometr o amgylch ffin y Parc) gan Ymddiriedolaeth Ornitholeg Prydain (Mehefin 2020)[16]. Mae Ffigur 13 isod yn dangos tueddiad heb ei lyfnhau ar gyfer adar tir fferm yng Nghymru ac ardal Bannau Brycheiniog rhwng 1994 a 2018 ar gyfer yr un 11 o rywogaethau adar dangosol. Mae Tabl 1 yn yr adroddiad yn dangos dynodiadau cynefin rhywogaethau sydd wedi'u cynnwys yn y dangosydd ac mae Atodiad 1 yr adroddiad yn dangos gwerthoedd dangosyddion. Mae'r data yn dangos gostyngiadau o 20-30% dros gyfnod yr arolwg.

[14] Ymddiriedolaeth Ornitholeg Prydain https://www.bto.org/research-data.../state-birds-wales/2018/state-birds-wales-2018

[15] Fel yr uchod

[16] https://beaconsnpagovuk-my.sharepoint.com/:b:/g/personal/matthews_breconbeacons_org/EcJlbhmEfW1BtL6p-l7tzHABSSm0lwPCYgPW5iWfVKBjIQ?e=S3E4vg



Ffigur 13 Rhywogaethau Tir Fferm

78. Mae Ffigur 14 isod yn dangos tueddiad heb ei lyfnhau ar gyfer adar ucheldir yng Nghymru ac ardal Bannau Brycheiniog rhwng 1994 a 2018 ar gyfer yr un 8 o rywogaethau adar dangosol. Mae Tabl 1 yr adroddiad yn dangos dynodiadau cynefin rhywogaethau sydd wedi'u cynnwys yn y dangosydd ac mae Atodiad 1 yr adroddiad yn dangos gwerthoedd dangosyddion. Mae'r data yn dangos rhyw fymryn o gynnydd o ran tueddiad Bannau Brycheiniog (8%), tra bod tueddiad Cymru yn gostwng rhyw fymryn o 13%.



Ffigur 14 Rhywogaethau Ucheldir

79. Mae Ffigur 15 isod yn dangos tueddiad heb ei lyfnhau ar gyfer coetir yng Nghymru ac ardal Bannau Brycheiniog rhwng 1994 a 2018 ar gyfer yr un 26 o rywogaethau adar dangosol. Mae Tabl 1 yr adroddiad yn dangos dynodiadau cynefin rhywogaethau sydd wedi'u cynnwys yn y dangosydd ac mae Atodiad 1 yn dangos gwerthoedd dangosyddion. Mae'r data yn dangos cynnydd yn y Parc ac ar lefel genedlaethol (cynnydd o 12% ym Mannau Brycheiniog a 30% yng Nghymru).



Ffigur 14 Rhywogaethau Coetir

80. Mae Ffigur 16 isod yn dangos tueddiad heb ei lyfnhau ar gyfer rhywogaethau trefol, gwlypdir ac eraill yng Nghymru ac ardal Bannau Brycheiniog rhwng 1994 a 2018 ar gyfer yr un 14 o rywogaethau adar. Mae Tabl 1 yr adroddiad yn dangos dynodiadau cynefin rhywogaethau sydd wedi'u cynnwys yn y dangosydd ac mae Atodiad 1 yn dangos gwerthoedd dangosyddion. Mae'r data yn dangos cynnydd o 15% ym Mannau Brycheiniog a chynnydd o 7% yn nhueddiad cyfatebol Cymru.



Ffigur 15 Rhywogaethau Trefol, Gwlypdir ac Eraill

81. Mae Atodiad 10 yn darparu data tueddiad 23 mlynedd (1995-2018) a data tueddiad 5 mlynedd (2013-2018) ar gyfer y rhywogaethau adar a ddefnyddiwyd yn y dangosyddion, â chod lliw i amlygu lefel y newid: mae coch yn cynrychioli'r rhestriad COCH, melyn y rhestriad AMBR, mae gwyrdd golau yn cynrychioli cynnydd cymedrol a gwyrdd tywyll cynnydd cryf. Mae maint y sampl (nifer y sgwariau) mewn cromfachau. Mae'r data yn dangos:
    - Bod 8 o rywogaethau a restrwyd yn goch wedi gostwng >50% ym Mannau Brycheiniog, 4 ohonynt yn gysylltiedig â thir fferm, 3 â chynefin ucheldir ac 1 â chynefin trefol
    - Gostyngiad o >25% i 12 o rywogaethau a restrwyd yn ambr ym Mannau Brycheiniog

82. Mae adran canlyniadau adroddiad Ymddiriedolaeth Ornitholeg Prydain (Mehefin 2020)[17] yn nodi o'r 140 o rywogaethau adar a ganfuwyd o leiaf unwaith ar sgwariau BBS yn ardal Bannau Brycheiniog ers 1994, llwyddwyd i gyfrifo tueddiadau poblogaeth ar gyfer 61 o rywogaethau (59 rhywogaeth frodorol a 2 estron: Gŵydd Canada a Ffesant) gan ddefnyddio data BBS o ardal Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a ddiffiniwyd yn Ffigur 1. Tueddiadau'r 59 o rywogaethau brodorol yw'r rhai a ddefnyddir yn y dangosyddion. Canfuwyd wyth o rywogaethau estron eraill hefyd, y mwyafrif yn anaml iawn (e.e. Iâr Gini Helmog, Hwyaden Fandarin a Thylluan Fach). Ni allem gyfrifo tueddiadau poblogaeth cadarn ar gyfer y 71 o rywogaethau eraill a ganfuwyd yn anaml yn unig ar sgwariau BBS ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Nid yw hyn yn annisgwyl oherwydd hyd yn oed ar lefel y DU â dros 4000 o sgwariau cyfansoddol, rydym yn adrodd tueddiadau ar gyfer 117 o rywogaethau yn unig, sy'n cael eu canfod ar 40 sgwâr yn flynyddol ledled y DU. Dangosir crynodeb o'r tueddiadau wedi'u llyfnhau hirdymor (23 mlynedd) a byrdymor (5 mlynedd) ar gyfer pob un o'r 61 o rywogaethau â data digonol yn Nhabl 1. Sylwer er y defnyddiwyd cyfrifiadau arolwg o 2019 nad oeddent wedi'u cyhoeddi ar adeg y dadansoddiadau hyn yn y dadansoddiadau, y protocol ar gyfer adrodd newidiadau hirdymor i dueddiadau wedi'u llyfnhau yw o'r 2il flwyddyn i'r flwyddyn olaf ond un yn y gyfres amser. Felly, mae'r tueddiadau 23 mlynedd yn cynnwys y cyfnod rhwng 1995 a 2018. Ar gyfer y newid yn y tueddiad wedi'i lyfnhau dros y cyfnod diweddaraf o bum mlynedd, rydym yn cymharu gwerth 2018 â gwerth 2013. Mae'r cod lliw yn dynodi a yw'r dirywiad yn dangos rhestriad coch (>50%) neu restriad ambr (>25% a <50%). Dangosir achosion o gynnydd hefyd mewn gwyrdd golau ar gyfer cynnydd cymedrol (>50% a <100%) neu gynnydd cryf (>100%). Mae'r trothwyon hyn ar gyfer dirywiad wedi'u seilio ar y cyfraddau a ddefnyddir yn asesiad statws Adar o Bryder Cadwraethol ar gyfer adar yn y DU. Cafwyd y dirywiad mwyaf sylweddol rhwng 1995 a 2018 ymysg drudwennod, sef 84%. Dangoswyd bod cyfanswm o 8 o rywogaethau yn dirywio o fwy na 50% dros y cyfnod tymor hwy: Gwennol Ddu, Llinos Werdd, Siglen Lwyd, Bras Melyn, Gylfinir, Cynffonwen ac Ydfran. Dirywiodd deuddeng o rywogaethau rhwng 25% a 50% yn y cyfnod hwy, gan gynnwys Ji-binc, Pioden, Telor yr Ardd, Cnocell Werdd, Gwennol y Bondo, Crëyr Glas, Titw Cynffon-hir, Hwyaden Wyllt, Tingoch, Jac-y-do, Titw Tomos Las, a Chigfran, ac roedd 16 o rywogaethau eraill yn dirywio <25%. Mewn cyferbyniad, mae tair rhywogaeth wedi cynyddu mwy na 50% (Pila Gwyrdd, Peneuryn a Bras y Gors) ac mae poblogaethau wyth rhywogaeth wedi mwy na dyblu (>100% o gynnydd). Y Gnocell Fraith Fwyaf, Aderyn y To, Penlöyn, Barcut, Llinos Bengoch, Crec yr Eithin, Clochdar y Cerrig a Gŵydd Canada estron oedd y rhain, er bod maint y sampl ar gyfer yr olaf yn fach.
83. Yn gyffredinol, mae tueddiadau yn y Parc yn debyg i'r rhai ledled Cymru. Un eithriad yw adar ucheldir, sy'n gwneud yn well yn y Parc. Ceir mwy o amrywioldeb ar draws ardal y Parc nag yng Nghymru gydag amser, a gellir disgwyl hyn gan ei bod yn ardal

[17] https://beaconsnpagovuk-my.sharepoint.com/:b:/g/personal/matthews_breconbeacons_org/EcJlbhmEfW1BtL6p-I7tzHABSSm0IwPCYgPW5iWfVKBjIQ?e=S3E4vg

lai. Mae'r adroddiad yn nodi llawer o gafeatau gyda'r data, yn enwedig o gofio bod nifer cyfyngedig o bwyntiau samplu yn y parc a'r cyffiniau.

Dangosydd 11 – Ystlumod

84. Mae Rhaglen Genedlaethol Monitro Ystlumod y DU yn darparu data ar raddfa genedlaethol ynghylch tueddiadau poblogaeth ar gyfer rhywogaethau ystlumod Prydain. Nid oes unrhyw ddata ar lefel y Parc ar hyn o bryd. Fodd bynnag, cynhyrchir mynegeion arolwg ar lefel gwlad ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar rywogaethau ac arolygon lle mae data digonol ar gael. Nodir y rhain yn Adroddiad Blynyddol y Rhaglen Genedlaethol Monitro Ystlumod (2019)[18].
85. Mae Ffigur 17 isod yn dangos crynodeb o'r tueddiadau o ran rhywogaethau ystlumod yng Nghymru, yn deillio o arolygon y Rhaglen Genedlaethol Monitro Ystlumod hyd at ddiwedd haf 2019. Ar gyfer pob rhywogaeth, dangosir nifer y safleoedd sy'n cyfrannu at gyfrifiadau tueddiadau 2019 yn ogystal â brasamcan o'r newid canrannol blynyddol cyfartalog ers y flwyddyn sylfaen. Dylid nodi, fodd bynnag, bod y newid canrannol blynyddol cyfartalog yn gwneud tybiaethau ynglŷn â'r dadansoddiad data ac mai dim ond ar gyfer y rhywogaethau y mae'r llinell dueddiadau yn ymddangos yn llinellol y mae'n wirioneddol briodol.
86. Dangosodd pob rhywogaeth dueddiadau tebyg ar lefel Prydain Fawr a gwlad gyda'r eithriadau canlynol: dangosodd dueddiad Arolwg Gaeafgysgu yr ystlum pedol mwyaf gynnydd ystadegol arwyddocaol ar lefel Prydain Fawr ac yn Lloegr, ond dim gwahaniaeth sylweddol yng Nghymru; dangosodd tueddiad Arolwg Dyfrffyrdd ystlum Daubenton gynnydd ystadegol arwyddocaol yng Nghymru, ond dim gwahaniaeth sylweddol ar lefel Prydain Fawr neu'r DU, nac yn Lloegr, yr Alban na Gogledd Iwerddon; dangosodd tueddiad Arolwg Gaeafgysgu ystlum Natterer gynnydd ystadegol sylweddol ar lefel Prydain Fawr ac yng Nghymru a Lloegr, ond dim newid sylweddol yn yr Alban, er bod maint y sampl yn yr Alban yn fach ac felly gallai'r tueddiad fod yn annibynadwy; dangosodd tueddiad Arolwg Maes yr ystlum lleiaf cyffredin gynnydd sylweddol ar lefel Prydain Fawr ac yn Lloegr, ond dim gwahaniaeth sylweddol yn yr Alban; a dangosodd tueddiad Arolwg maes yr ystlum lleiaf soprano gynnydd sylweddol ar lefel Prydain Fawr ac yn yr Alban, ond dim gwahaniaeth sylweddol yn Lloegr.

[18] https://cdn.bats.org.uk/pdf/Our%20Work/National-Bat-Monitoring-Programme-Annual-Report-2019.pdf?mtime=20200514130739&focal=none

Species	Survey type	No. sites trend analysis	Base year	Long-term trend since base year (%)	Average annual change and 95% CI (%)
Greater horseshoe bat	Hibernation	98	1999	104.9	3.7 (-0.9 to 10.4)
Lesser horseshoe bat	Hibernation	177	1999	173.0*	5.2 (4.0 to 6.0)
	Roost	178	1999	69.1*	2.7 (1.5 to 3.7)
Daubenton's bat	Waterway	49	2000	50.9*	2.2 (0.8 to 3.7)
	Hibernation	98	1999	29.7	1.3 (-2.0 to 4.5)
Whiskered/Brandt's bat	Hibernation	83	1999	-5.1	-0.3 (-3.3 to 0.8)
Natterer's bat	Hibernation	137	1999	63.0*	2.5 (0.4 to 3.3)
Soprano pipistrelle	Roost	53	2002	-70.4*	-6.9 (-10.8 to -4.3)
Brown long-eared bat	Hibernation	90	1999	44.3	1.9 (-0.5 to 3.4)

Notes: * indicates statistically significant result at 5% level.

Ffigur 16 Tabl crynodeb o dueddiadau poblogaeth rhywogaethau ystlumod

87. Darperir data Clwydfannau Mamolaeth ystlumod o asesiad HOV2 yr A465 (Atodiad 2). Er bod y rhain wedi'u lleoli yn y parc, maent wedi'u cyfyngu i ardaloedd penodol iawn ac fe'u casglwyd ar adeg benodol mewn amser yn unig.

Dangosydd 12 – Rhywogaethau Estron Goresgynnol



[19]

88. Mae Rhywogaethau Estron Goresgynnol yn her sylweddol i adferiad natur, yn sgil poblogaethau cryf a chyson o rywogaethau planhigion ac anifeiliaid penodol, a rhestr faith sy'n tyfu o rywogaethau eraill sydd â'r potensial i gael effaith niweidiol ar fioamrywiaeth a thirwedd y Parc.
89. Nid yw pob rhywogaeth estron yn achosi problemau, ond ystyrir bod y lleiafrif sydd yn cael effeithiau negyddol ar ein cefn gwlad yn Rhywogaethau Estron Goresgynnol. Mae rhai o'r Rhywogaethau Estron Goresgynnol mwyaf cyffredin sydd i'w gweld yn y DU ac yn y Parc Cenedlaethol yn cynnwys clymog Japan, Jac y Neidiwr ac Efwr Enfawr.
90. Ym mis Ebrill 2018, lansiodd Awdurdod y Parc Cenedlaethol brosiect rhywogaethau goresgynnol 'Goresgynwyr y Parc Cenedlaethol'. Ei ddiben yw sefydlu prosiect treialu ar gyfer arolygu a rheoli Rhywogaethau Estron Goresgynnol yn nalgylchoedd afonydd Wysg a Thawe, gan weithio gyda phrosiectau a sefydliadau eraill i ddatblygu dull partneriaeth rhywogaethau goresgynnol cydweithredol. Yn y pen draw, bydd y prosiect yn ystyried sut y gellir rheoli Rhywogaethau Estron Goresgynnol yn y tymor hir.
91. Cofnodwyd 59 o Rywogaethau Estron Goresgynnol o fewn ffiniau Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (Atodiad 1). Ym mis Chwefror 2020, ceir 4300 o gofnodion rhywogaethau goresgynnol a ddelir gan y Ganolfan Cofnodion Lleol ar gyfer ardal y Parc. Mae'r map yn Ffigur 18 isod yn dangos cofnodion Rhywogaethau Estron Goresgynnol a ganfuwyd ym Marc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. [20]

[19] Adroddiad Cyflwr Natur 2019 Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
[20] Adroddiad Cyflwr Natur 2019 Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog



Figure 17 Invasive Non-Native Species

92. Mae data'r Ganolfan Cofnodion Lleol yn dangos bod nifer y cofnodion a nifer y gwahanol rywogaethau a gofnodwyd wedi cynyddu yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf. Yn 2000, cyflwynwyd 57 o gofnodion o 10 o Rywogaethau Estron Goresgynnol. Yn 2019, cyflwynwyd 369 o gofnodion o 28 o wahanol rywogaethau goresgynnol. Cynnydd triphlyg i nifer y rhywogaethau a chynnydd chwephlyg i gyfanswm y cofnodion a gyflwynwyd ers 2000 (Ffigur 19).



Ffigur 19 Nifer y rhywogaethau a nifer y cofnodion o Rywogaethau Estron Goresgynnol a gofnodwyd yn y Parc Cenedlaethol yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf (Data o'r Ganolfan Cofnodion Lleol ar gyfer Powys a Chanolfan Cofnodion Lleol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog)

93. Byddai prosiect 'Goresgynwyr y Parc Cenedlaethol' yr Awdurdod (2018) wedi arwain at gynnydd i gofnodion o 1 Ebrill 2018 oherwydd yr ymdrech arolygu gynyddol.
94. Cyrhaeddodd 125 o Rywogaethau Estron Goresgynnol newydd y DU rhwng 2000 a 2015. Mae'n hysbys bod 45 o'r rhain wedi ymsefydlu ac ystyrir bod 14 o'r rhain yn cael effaith negyddol (Roy et al. 2014).
95. Mae Ffigur 20 isod yn dangos y 10 Rhywogaeth Estron Oresgynnol fwyaf yn ôl nifer y cofnodion yn y Parc Cenedlaethol. Sylwer nad yw hwn yn fesuriad o helaethrwydd ond o'r nifer o weithiau y maent wedi eu cofnodi.

Rank	English Name (Latin name)	Total Records
1	Canada goose (*Branta canadensis*)	944
2	Himalayan balsam (*Impatiens glandulifera*)	622
3	Japanese knotweed (*Fallopia japonica*)	516
4	New Zealand willowherb (*Epilobium brunnescens*)	465
5	Grey squirrel (*Sciurus carolinensis*)	383
6	American mink (*Neovison vison*)	166
7	Rhododendron ponticum	129
8	Canadian waterweed (*Elodea Canadensis*)	106
9	Cherry laurel (*Prunus laurocerasus*)	92
10	Giant hogweed (*Heracleum mantegazzianum*)	75

Ffigur 20 Y 10 Rhywogaeth Estron Oresgynnol fwyaf yn ôl nifer y cofnodion ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (Data o'r Ganolfan Cofnodion Lleol ar gyfer Powys a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, cywir ar 14/02/20)

	Apr-18	May-20	Increase of:
Japanese Knotweed	333	610	277
Himalayan Balsam	209	624	415
Giant Hogweed	48	77	29

Ffigur 18 Newid i Nifer y Cofnodion o Rywogaethau Estron Goresgynnol

96. Mae Ffigur 21 yn dangos y newid i nifer y cofnodion o Rywogaethau Estron Goresgynnol, ac mae pob un o'r tair Rhywogaeth Estron Oresgynnol yn dangos rhyw fymryn o gynnydd, a allai fod o ganlyniad i ymdrech gynyddol gan y cofnodwyr. Dylid nodi hefyd fod y cofnodion hyn yn ddangosyddion o bresenoldeb/absenoldeb ar yr adeg benodol honno. Nid ydynt yn mesur graddau nac amlder ymddangosiad y planhigyn. Mae ychydig yn fwy o fanylion weithiau ar gael yn adran sylwadau pob cofnod unigol ynghyd â llun os defnyddiodd y cofnodwr nodweddion llawn ap Canolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol Cymru. Bydd hefyd yn dweud wrthych a yw'r planhigyn yn dal i fodoli gan fod rhai o'r cofnodion yn dyddio yn ôl i 1968. Gan fod hwn yn ddangosydd a set ddata newydd, nid oes unrhyw ddata blaenorol i gymharu â nhw, ond gellir gwneud cymariaethau yn Adroddiadau Cyflwr y Parc y dyfodol.

Pennod 2 – Diwylliant a Threftadaeth

Cyflwyniad

97. Ffurfiwyd y dirffurf sy'n diffinio tirwedd y Parc Cenedlaethol gan symudiad rhewlif yr oes iâ ddiwethaf a ddaeth i ben tua 12 mil o flynyddoedd yn ôl. Mae'r dystiolaeth o symudiad y rhew i'w gweld yn y nenlinell arw a dramatig, sgarpiau, peirannau, marianau a sgrïau eiconig y Bannau.
98. Mae'r Parc Cenedlaethol yn dirwedd byw sy'n gweithio ac wedi bod ers dros wyth mileniwm, ac mae pob cenhedlaeth olynol wedi defnyddio'r tir er eu budd pennaf o helwyr-gasglwyr cynhanes i orchestion diwydiannu'r 19eg ganrif. Fel y mae pobl wedi byw yn y bryniau a'r cymoedd hyn, felly hefyd y mae tystiolaeth o'u bywydau yn cerfio'r dirwedd ag adleisiau eu presenoldeb.
99. Mae'r rhyngweithio hwn rhwng tir a phobl yn llunio brithwaith cyfoethog o brofiad dynol a welir yn siâp y caeau, llethr a ffos bron bryngaer, olion traed y porthmyn yn troedio llwybrau sy'n croesi'r cymoedd. Mae diwylliant a thraddodiadau pobl ar hyd yr oesoedd yn plethu ynghyd ffordd o fyw sydd wedi'i rhwymo yn unigryw i le.
100. Mae pobl wedi gwerthfawrogi'r tir am ei gynnyrch ers milenia. Ar droad y 19eg ganrif, dechreuodd y dirwedd ddatblygu ystyr newydd wedi'i fynegi yng nghelf a barddoniaeth y Rhamantwyr a oedd yn credu bod harddwch naturiol yn endid gwerth chweil ynddo'i hun.
101. Heddiw, gwerthfawrogir tirwedd y Parc Cenedlaethol fel tirwedd i ysbrydoli lle cynhelir gwyliau sydd wedi'u trwytho mewn cerddoriaeth, celfyddydau a llenyddiaeth. Mae Gŵyl y Gelli yn ŵyl lenyddiaeth ryngwladol a gynhelir yn nhref ffin y Gelli Gandryll am 10 diwrnod ddiwedd mis Mai, gan fanteisio ar ddelwedd y Gelli fel 'tref y llyfrau'. Mae'r ŵyl yn denu awduron ac athronwyr o bedwar ban byd i gyflwyno eu gwaith a'u syniadau i gynulleidfaoedd amrywiol a helaeth.
102. Yn Aberhonddu, mae'r ŵyl jazz flynyddol a gynhelir bob mis Awst yn dod â lliw a cherddoriaeth i strydoedd yr hen dref farchnad hon ac yn y gorffennol mae wedi denu enwogion fel George Melly a Jools Holland i berfformio yn yr ŵyl. Hefyd ym mis Awst, cynhelir Gŵyl y Dyn Gwyrdd ar Ystâd Glanwysg yng Nghrucywel, gŵyl sy'n dathlu cerddoriaeth a chelfyddydau amgen ac annibynnol. Ers ei sefydlu yn 2003, mae'r ŵyl wedi esblygu i fod yn ddigwyddiad 4 diwrnod â chapasiti o 20,000 a ddarlledir ar y radio yn genedlaethol.
103. Disodlwyd amaethyddiaeth fel canolbwynt a phrif gynhaliwr cyflogaeth i gymunedau gwledig y Parc ers amser maith, ond o ran gweithgarwch cymunedol mae bron i bob pentref a thref yn y Parc yn parhau â thraddodiad y sioe amaethyddol flynyddol.
104. Dewiswyd y dangosyddion canlynol ar gyfer Pennod 2:

Pennod 2 – Diwylliant a Threftadaeth	
13	% yr Hawliau Tramwy sy'n hawdd eu defnyddio
14	Erydu Ucheldir ar Lwybrau
15	Y Gymraeg
16	Digwyddiadau Diwylliannol
17	Henebion Cofrestredig yr Amgylchedd Hanesyddol

18	Adeiladau Rhestredig yr Amgylchedd Hanesyddol

105. Mae bylchau yn y data ym Mhennod 2 yn cynnwys:

- Arwynebedd Tir a Ffermir yn ôl math – anfonwyd ceisiadau am ddata at LIC ond ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth eto. Os/pan fydd data yn dod i law, byddwn yn gallu eu defnyddio yn y fersiwn hon neu fersiynau'r dyfodol o Adroddiad Cyflwr y Parc. Rydym wedi derbyn gwybodaeth am arwynebedd tir a ffermir – gweler Ffigur 22 isod, ond nid yw hon yn diffinio'r math o dir a ffermir.



Ffigur 19 Arwynebedd cofrestredig tir a ffermir yn y parc

Dangosydd 13 – Hawliau Tramwy

106. Darperir data gan y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (2019) a gwaith arolygu ychwanegol

107. Dangosir Hawliau Tramwy yr ystyrir eu bod yn 'Hawdd eu Defnyddio' yn Ffigur 23 isod. Mae'r graff yn dangos bod canran yr hawliau tramwy 'hawdd eu defnyddio' yn y Parc yn amrywio rhwng 2010/2011 a 2013/2014. Bu cynnydd mwy sylweddol i'r hawliau tramwy 'hawdd eu defnyddio' rhwng 2013/2014 a 2018/2019.



Ffigur 20 Hawliau tramwy 'Hawdd eu Defnyddio'

108. Dangosir Hawliau Tramwy yr ystyrir eu bod yn 'Agored' yn Ffigur 24 isod.

109. Mae'r graff yn dangos bod canran yr hawliau tramwy agored yn y Parc wedi cynyddu yn raddol rhwng 2011/2012 a 2013/2014, a bu cynnydd mwy sylweddol i'r hawliau tramwy agored rhwng 2013/2014 a 2018/2019.



Ffigur 21 Hawliau tramwy 'Agored'

- Ceir arwyddion ar gyfer 76% o'r Hawliau Tramwy yn y Parc. Ni adroddwyd hyn mewn argraffiadau blaenorol o Adroddiad Cyflwr y Parc er bod y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (2019) yn dangos bod hyn wedi gwella yn sylweddol ers 2002 (56%).

Dangosydd 14 – Erydu Ucheldir

110. Disgwylir canlyniadau arolygiad diweddaru o set ddata 2014 yn 2020. Yn anffodus, oherwydd pandemig COVID 19 a chyfyngiadau mynediad at ardaloedd

ucheldir y Parc Cenedlaethol, ni chwblhawyd y gwaith arolygu mewn pryd i gyflwyno'r canlyniadau yn yr adroddiad. Mae gwaith arolygu wrthi'n cael ei gwblhau a gobeithir y gellir cynnwys y canlyniadau cyn cyhoeddi'r adroddiad, gyda diweddariad i Awdurdod y Parc Cenedlaethol pan ddaw'r canlyniadau i law. Ni fu unrhyw newid i'r data a ddefnyddiwyd yn Adroddiad Cyflwr y Parc 2014 felly[21].

Dangosydd 15 – Y Gymraeg

111. Mae'r Gymraeg yn chwarae rhan fawr yng nghymeriad a ffordd o fyw cymunedau yn y Parc Cenedlaethol. Mae 10.3% o drigolion yn y Parc Cenedlaethol yn gallu siarad Cymraeg. Mae'n nodwedd allweddol o fywyd dyddiol mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith yn y Parc. Caiff cyfoethogrwydd yr iaith ei ddathlu mewn digwyddiadau fel Eisteddfodau. Adlewyrchir y Gymraeg yn y dirwedd ac enwau lleoedd ac adeiladau. Mae gan yr holl drigolion ac ymwelwyr rywfaint o fynediad at yr iaith ac ymwybyddiaeth ohoni drwy hyn. Mae tueddiadau diweddar wedi arwain at ostyngiad i gyfran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl.

'Mae'r Gymraeg yn un o drysorau Cymru. Mae'n rhan o'r hyn sy'n ein diffinio fel pobl ac fel cenedl'[22]

112. Nododd data a gasglwyd ar gyfer Cyfrifiad 2011 fod 562,000 o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru strategaeth 'Cymraeg 2050' gyda'r nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Hefyd, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cyflwyno saith nod, ac un ohonynt yw, *'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'*. Mae pwysigrwydd cynyddol y Gymraeg yng Nghymru yn golygu bod monitro canran y trigolion yn y Parc Cenedlaethol sydd â sgiliau Cymraeg yn ddangosydd da o gyflwr y Parc o ran ei ddiwylliant a'i dreftadaeth.

113. Daw'r data a ddefnyddiwyd i ddangos cyflwr y dangosydd hwn o Gyfrifiad 2011. Mae'n debyg nad yw hyn yn adlewyrchu cyflwr presennol sgiliau Cymraeg yn y Parc, ond nid oes data mwy diweddar/cyfredol ar gael ar hyn o bryd.

114. Pan gynhaliwyd Cyfrifiad 2001, ni chafodd unrhyw fesuriad ei gynnwys ar gyfer y Gymraeg a siaredir ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog fel ardal benodol, dim ond ar lefel Awdurdod Lleol. Fodd bynnag, mae'r data yn dangos bod y gallu i siarad Cymraeg yn amrywio rhwng 0 a 10% ar draws yr ardal ddwyreiniol a'r canolbarth ac yn cynyddu i 20 – 30% yng ngorllewin pellaf y Parc (o Adroddiad Monitro'r Gymraeg Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn 2008-2009). Ffigurau 2011 fydd y llinell sylfaen ar gyfer y dangosydd hwn, gan eu bod yn cynnig darlun mwy cywir o'r sgiliau Cymraeg sy'n bodoli yn y Parc.

115. Mae Ffigur 25 isod yn dangos mai Bannau Brycheiniog sydd â'r ganran uchaf o drigolion heb unrhyw sgiliau Cymraeg (77.5%) o'i gymharu â'r Parciau Cenedlaethol eraill yng Nghymru, yna Arfordir Sir Benfro (70.3%), ac Eryri sydd â'r ganran isaf (32.5%). Ceir rhagor o ddata yn Atodiad 11.

[21] https://www.bannaubrycheiniog.org/yr-awdurdod/ffeithiau-a-ffigurau/adroddiad-cyflwr-y-parc/
[22] Llywodraeth Cymru 'Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr. Ar gael yn: http://www.assembly.wales/Laid%20Documents/GEN-LD11108/GEN-LD11108-w.pdf

116. Bannau Brycheiniog sydd â'r ganran isaf o drigolion sy'n gallu deall Cymraeg llafar yn unig (5.5%), sy'n gallu siarad Cymraeg (13.9%), sy'n gallu siarad Cymraeg ond nid ei darllen na'i hysgrifennu (2.2%), sy'n gallu siarad a darllen y Gymraeg ond nid ei hysgrifennu (1.2%), ac sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'r Gymraeg (10.3%). Mae'r data hyn yn dangos y ceir sgiliau Cymraeg gwael ym Mannau Brycheiniog o'i gymharu â Pharciau Cenedlaethol eraill Cymru.

117. Mae Bannau Brycheiniog yn perfformio'n wael o'i gymharu â Chymru yn ei chyfanrwydd hefyd:

- Canran y trigolion yng Nghymru nad oedd ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg oedd 73.3% – yn is na ffigur Bannau Brycheiniog o 77.5%.
- Canran y bobl a allai siarad, darllen ac ysgrifennu'r Gymraeg yng Nghymru oedd 14.6% – yn uwch na ffigur Bannau Brycheiniog o 10.3%.
- Canran y bobl a allai ddeall Cymraeg llafar yn unig yng Nghymru oedd 5.3% – yn is na ffigur Bannau Brycheiniog o 5.5%.
- Canran y trigolion hynny yng Nghymru a allai siarad Cymraeg oedd 19% – yn uwch na chyfartaledd Bannau Brycheiniog o 13.9%.
- Y ganran yng Nghymru a allai siarad Cymraeg ond nid ei darllen na'i hysgrifennu oedd 2.7% – yn uwch na ffigur Bannau Brycheiniog o 2.2%.
- Y ganran yng Nghymru a allai siarad a darllen y Gymraeg ond nid ei hysgrifennu oedd 1.5% – yn uwch na ffigur Bannau Brycheiniog o 1.2%.



Ffigur 22 Sgiliau Cymraeg (Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011)

Dangosydd 16 – Digwyddiadau Diwylliannol

118. Mae pobl yn cysylltu â thirwedd a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol trwy ddod at ei gilydd mewn digwyddiadau, sydd hefyd yn chwarae rhan bwysig yn llesiant a chydlyniant cymunedol i drigolion ac ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a mwynhad i drigolion ac ymwelwyr yn yr un modd. Mae digwyddiadau diwylliannol yn cwmpasu amrywiaeth eang, o Eisteddfodau a sioeau amaethyddol lleol traddodiadol i ffurfiau newydd trwy grwpiau theatr, celfyddydau a drama lleol gan gynnwys Clybiau Ffermwyr Ifanc. Yn ogystal â digwyddiadau diwylliannol, cynhelir amrywiaeth eang o wyliau cerdded a digwyddiadau awyr agored eraill bob blwyddyn hefyd.



Ffigur 23 Nifer y Digwyddiadau Lleol a Gynhaliwyd

119. Mae Ffigur 26 yn dangos bod nifer y sioeau yn y tri chategori wedi cynyddu rhwng 2005 a 2019.

Yr Amgylchedd Hanesyddol (Henebion Cofrestredig ac Adeiladau Rhestredig)

120. Mae amgylchedd hanesyddol yn derm eang, sy'n cyfeirio at yr holl dystiolaeth o ryngweithio dynol â'r dirwedd, yn faterol, o ran adeiladau sefydlog neu henebion wedi'u claddu a thirweddau fel cwysi hynafol a dorrwyd neu erddi a blannwyd yn ddiweddar. Hanes bywydau dynol olynol sydd wedi'u byw mewn tirwedd sy'n esblygu dros amser yw'r Amgylchedd Hanesyddol.

121. Mae cymhlethdod yr Amgylchedd Hanesyddol yn y Parc Cenedlaethol yn anferth, gan ymestyn o gynhanes yr holl ffordd i'r oes fodern.

122. Ceir cyfoeth o gylchoedd cerrig, a siambrau claddu, Caerau Oes Haearn a gwersylloedd Rhufeinig. Ymysg ein heglwysi hanesyddol, ceir Catwg Sant yn Llangatwg, a sefydlwyd yn y 6ed ganrif ac yr ystyrir yn un o'r hynaf ym Mhrydain, er ei bod wedi ei hailadeiladu i raddau helaeth dros y blynyddoedd – mae ei hychwanegiadau cymharol ddiweddar yn cynnwys corff eglwys o'r 14eg ganrif, tŵr

o'r 16eg ganrif a dwy goeden ywen arbennig o hen. Yn ystod y Goncwest Normanaidd, roedd y bryniau yn frith â chestyll. Mae'n debyg mai adfeilion Carreg Cennen yw'r amddiffynfa fwyaf adnabyddus sydd ar ôl. Sefydlwyd Priordy Llanddewi Nant Hodni oddeutu 1100, ac fe'i dilynwyd gan ffermdai canoloesol. Defnyddiwyd tir na ddefnyddiwyd gan y barwniaid Normanaidd gan bentrefwyr fel ffynhonnell o goed tân, tyweirch, mawn a graean, ac fel tir pori ar gyfer defaid, gwartheg a moch.

123. Gwnaed newidiadau enfawr yn ystod y Chwyldro Diwydiannol ddiwedd y 18fed ganrif. Cloddiwyd am garreg galch, tywod silica a haearnfaen ar gyrion y Parc i fodloni'r galw o ffwrneisi Cymoedd y De.

124. Daeth Camlas Sir Fynwy a Chamlas Brycheiniog a'r Fenni, a sefydlwyd yn y 1790au, a gwblhawyd ym 1812 ac a oedd yn cysylltu â rhwydwaith o dramffyrdd a rheilffyrdd, yn goridorau pwysig ar gyfer cludo carreg galch, glo a haearn. Camlas Sir Fynwy a Brycheiniog yw ei henw erbyn hyn. Yn ogystal â strwythurau diwydiannol, daeth yr oesoedd Sioraidd a Fictoraidd ag adeiladau trefol a gwledig hardd i'r ardal, ac mae rhai ohonynt yn dal i feddu ar eu nodweddion gwreiddiol.



Ffigur 24 Nodweddion Amgylchedd Hanesyddol yn y Parc

Dangosydd 17 – Henebion Cofrestredig



Ffigur 25 Henebion Cofrestredig

125. Mae Ffigur 28 uchod yn dangos:

- Yn 2005, roedd 268 o henebion cofrestredig yn y parc, ac roedd 95.9% ohonynt mewn cyflwr sefydlog neu ffafriol
- Yn 2014, roedd 357 o henebion cofrestredig, ac roedd 92% ohonynt mewn cyflwr sefydlog neu ffafriol
- Yn 2019, roedd 358 o henebion cofrestredig, ac roedd 72% ohonynt mewn cyflwr sefydlog neu ffafriol

126. Mae cyfanswm yr Henebion Cofrestredig yn y parc yn cynyddu. Bu cynnydd o 89 i nifer yr Henebion Cofrestredig rhwng 2005 a 2014, sy'n gynnydd o 33%. Nodwyd un Heneb Gofrestredig arall rhwng 2014 a 2019.

127. Mae'r data yn dangos bod cyflwr yr Henebion Cofrestredig yn y parc yn dirywio. Rhwng 2014 a 2019, cafwyd gostyngiad o 20% i ganran yr Henebion Cofrestredig yn y parc a oedd mewn cyflwr sefydlog neu ffafriol. Nid yw'n eglur pam y bu gostyngiad mor fawr i ganran yr Henebion Cofrestredig sydd mewn cyflwr sefydlog neu ffafriol. Mae angen gwneud rhagor o waith i ddeall hyn a'r hyn y gellir ei wneud i atal dirywiad pellach.

128. Cynyddodd niferoedd nodweddion archeolegol eraill yn y parc yn ddramatig rhwng 2005 (3,438 o safleoedd) a 2018 (tua 16,830 o safleoedd). Cynyddodd nifer y Parciau a Gerddi Hanesyddol hefyd, o 6 i 18. Gostyngodd nifer y tirweddau o ddiddordeb hanesyddol eithriadol o 5 i 3 yn ystod yr un cyfnod.

Dangosydd 18 – Adeiladau Rhestredig



Ffigur 26 Adeiladau Rhestredig ac Adeiladau mewn Perygl

129. Cafwyd cynnydd o 241 i nifer yr Adeiladau Rhestredig yn y parc rhwng 2005 (cyfanswm o 1,711) a 2019 (cyfanswm o 1,952). Roedd y cynnydd yn fwy amlwg rhwng 2005 a 2014 a nodwyd 2 Adeilad Rhestredig newydd yn unig rhwng 2014 a 2019.

130. Cafwyd gostyngiad o 62 i nifer yr Adeiladau Rhestredig mewn Perygl rhwng 2005 a 2014. Rydym yn disgwyl data ar yr Adeiladau Rhestredig yn y parc y dyfernir eu bod mewn perygl.

Pennod 3 – Pobl a'r Economi

Cyflwyniad

131. Mae'r rhyngweithio rhwng pobl a natur dros amser wedi llunio cymeriad unigryw a gwerth esthetig, ecolegol a diwylliannol y Parc Cenedlaethol. Yn ôl Canllawiau yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur ar Gymhwyso Categorïau Rheoli Ardaloedd Gwarchodedig, mae diogelu uniondeb y rhyngweithio hwn yn hanfodol i warchod a chynnal yr ardal a'i gwerthoedd cadwraeth natur ac eraill cysylltiedig. Mae Parciau Cenedlaethol yn dirweddau byw. Ceir dau ddiben i Awdurdod y Parc Cenedlaethol, y cyntaf yw gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol, a'r ail yw hybu cyfleoedd i ddeall a mwynhau'r rhinweddau arbennig, a thrwy hyn darperir Dyletswydd i feithrin lles economaidd a chymdeithasol ei gymunedau lleol.

132. Mae'r problemau lawer sy'n wynebu cymunedau yn y Parc ar hyn o bryd yn cynnwys: y newid yn yr hinsawdd, mwy o berygl o lifogydd a dirywiad i fioamrywiaeth a'r effeithiau cysylltiedig ar les pobl, ansicrwydd ynghylch newidiadau i gymorth amaethyddol (h.y. newid o gymorth incwm i 'arian cyhoeddus ar gyfer nwyddau cyhoeddus'), tlodi gwledig, cost tai, poblogaeth sy'n heneiddio, cydraddoldeb a chynhwysiant, tegwch rhwng y cenedlaethau, pobl ifanc yn mudo a mynediad at wasanaethau. Mae llawer o'r problemau hyn wedi eu gwaethygu gan bandemig presennol COVID 19.

133. Mae mynd i'r afael â'r problemau hyn yn nwylo llawer o asiantaethau, sefydliadau a grwpiau cymunedol. Mae dynodiad y Parc yn cynnig cyfleoedd i fynd i'r afael â rhai o'r problemau hyn. Mae twristiaeth gynaliadwy wedi'i seilio ar natur yn cynnig budd economaidd a gall gyfrannu'n amrywiol at gadwraeth, gwelliant a hybu cyfleoedd i ddeall a mwynhau. Hefyd, mae amgylchedd a rhwydwaith mynediad o ansawdd uchel yn cynnig cyfleoedd llesiant corfforol a meddyliol.

134. Mae tueddiadau cyfredol wedi bod tuag at boblogaeth sy'n heneiddio â llai o gyfleoedd i bobl iau a theuluoedd fyw a gweithio yn y Parc. Mae lleihad yn y gymuned ffermio wedi cael effaith uniongyrchol ar arferion ffermio ac effaith anuniongyrchol ar agweddau eraill ar fywyd gwledig a threftadaeth ddiwylliannol, gan gynnwys sefydliadau cymunedol, ysgolion gwledig, sioeau a digwyddiadau, gofal anffurfiol a gwirfoddoli.

135. Mae data cyflogaeth ar gael yn ôl ardal awdurdod lleol yn unig ar hyn o bryd. Cyfeiriodd y fersiynau blaenorol o Adroddiad Cyflwr y Parc yn 2006 a 2014 at ddata cyfrifiad o 2001 a 2011. Ni fydd data Cyfrifiad wedi'u diweddaru ar gael tan 2021/2022, er bod rhai ffigurau wedi eu darparu yn yr adroddiad hwn a ddaw o ragolygon Experian felly nid ydynt yn adlewyrchiad cywir o gyflwr y Parc. Mae'r categorïau cyflogaeth a ddefnyddir yn nata Experian yn wahanol i'r rhai a ddefnyddir yn y cyfrifiad ac nid oes modd llunio cymariaethau union. Mae Atodiad 12 yn cynnig rhywfaint o ystyriaeth o lefelau cyflogaeth a diweithdra, er nad yw'n cael ei defnyddio fel dangosydd yn yr adroddiad hwn.

136. Bydd y fersiwn nesaf o Adroddiad Cyflwr y Parc yn defnyddio data cyfrifiad o 2021 a fydd yn cynnig cymhariaeth ddefnyddiol â'r data cyflogaeth o Adroddiadau Cyflwr y Parc 2006 a 2014.

137. Rydym yn disgwyl data gan Lywodraeth Cymru o ran maint busnesau fferm. Os derbynnir y data hyn mewn pryd, gellir eu defnyddio yn yr adroddiad hwn, fel arall byddant yn cael eu hadrodd yn fersiynau'r dyfodol. Dyma feysydd eraill lle byddai'r adroddiad yn elwa ar ragor o ddata:

- Cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim
- Nifer y pwyntiau gwefru cyhoeddus yn y Parc
- Cerdded yn yr iseldiroedd ac lechyd Meddwl
- Nifer y llwybrau teithio llesol
- Cysylltiad band-eang a'i gyflymder
- Map gwleidyddol dros amser
- Data y Gronfa Awyr Dywyll Ryngwladol

138. Defnyddir y dangosyddion canlynol ar gyfer Pennod 3 Adroddiad Cyflwr y Parc:

Thema 3 – Pobl a'r Economi	
19	Gwariant Twristiaeth
20	Poblogaeth
21	Tai
22	Cyfraddau Eiddo Gwag
23	Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

139. Paratôdd Cyngor Sir Powys adroddiad ym mis Gorffennaf 2020 o'r enw 'Deall Effaith COVID 19 ym Mhowys'[23]. Er na fydd effaith lawn y feirws yn hysbys am gryn amser, mae tueddiadau yn dod i'r amlwg ac mae'r adroddiad yn cynnig rhywfaint o syniad o'r effeithiau y gellir eu disgwyl ar yr economi ac ar gymunedau ym Mhowys (yr Awdurdod Unedol â'r arwynebedd/poblogaeth fwyaf o fewn ffin y Parc) yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir. Mae'r ffeithlun canlynol yn cynnig gwybodaeth am effaith y feirws.

[23] https://sway.office.com/sxfU525TCBDFv9PE?ref=Link&loc=play

Understanding the Impact of COVID-19 in Powys 'on a page'

In order to consider how Powys may look in the future, it is necessary to clearly see the current situation, what has changed or stayed the same and what this might mean for the County **over the short (6 months), medium (1 year) and long term (5 years).**

Economy

Business Support - **£46.6m paid out to 4,020** businesses with a further **support package** to be made available for small charities in Powys

Employment trends - 23% of Powys' workforce (13,100 employees) furloughed. From March to May claimant count increased **156% (+2,225) in Powys**

Impact on key sectors - Accommodation & food services have been the worst hit since COVID-19, with an estimated **fall in GDP of 92%**

Short, medium, long term
March and April 2020 compared to 2018 Powys, it is estimated that:

Short term Powys' GVA decreased by 24.5% with 25.2% fewer jobs
Medium term Powys' GVA decreased by 11.8% with 18.1% fewer jobs
Long term Powys' GVA decreased by 4.4% and 7.3% fewer jobs

Vibrant, connected & resourceful communities

Volunteers - **372** health and care volunteers across PCC and PTHB. **66%** volunteer increase on powys.volunteering-wales.net

Community provided services - **5,504** vulnerable persons in Powys communities are recognised

Environmental impacts - **massive reduction in airborne pollution,** most noticeably reduction in Nitrogen Dioxide (NO2) and particulate matter

Short, medium, long term
Short term Communities with high numbers of vulnerable persons continue to need additional help
Medium term A possible rise in the need for food banks in the most 'financially stretched and urban adverse' areas
Long term Risk that smaller Environmental NGOs may be lost without additional funding

Residents start well, live well & age well

Referral numbers – Referrals to Adult social care increased by **11%**. Children's referrals have **reduced,** mostly because of the schools closures (schools usually refer 10%) this could imply a **safeguarding risk to young people**

Homelessness and housing impacts – **112 homeless** as at 29th May 2020, **119% increase** compared to May 2019. **80% of those accommodated are single persons**

Short, medium, long term
Short term Adult support will continue, delivered virtually where possible
Medium term Referrals will increase. More homeless once private landlords can enforce evictions
Long term Adult social care needs will be met in the community. Increase in homelessness for family groups due to unemployment

Capable, confident & fulfilled residents

Pupil and student trends – 16 childcare hubs, **307** pupils accessing. **1,413** devices and MiFi dongles distributed

Free school meals- 14% increase in students who are eligible, **20% increase** in free school meal take up since Sept 2019

Well-being of pupils and students - Demand for children and young people's counselling service **increased by 60 referrals** since lockdown to 190 active cases

Short, medium, long term
The impact on children, young people and education staff is yet unknown

High Performing & well run council

Financial outlook for the council - potential **£16m deficit** for financial year 2020/21. **201 staff furloughed recouping £206k March-May**

Service Performance Impacts – Significant changes to the way the council is operating. **+1,100% daily VPN connections, +634% in Teams activity**

Well-being of staff – **562** staff have responded so far. **66% staff** reported they have **increased productivity** and **70%** have better **work/life balance**

Short, medium, long term
Short term Significant loss of income
Medium and long term Revisit our MTFS, austerity means we are likely to have a significantly worse financial settlement in future years

Dangosydd 19 – Gwariant Twristiaeth

140. Cesglir gwybodaeth am wariant twristiaeth ar gyfer y Parc gan STEAM (Model Gweithgarwch Economaidd Twristiaeth Scarborough). Mae gwerth twristiaeth i economi leol y Parc Cenedlaethol yn cynyddu. Mae Ffigur 22 isod yn dangos bod cynnydd sydd bron yn barhaus i wariant twristiaeth yn y Parc o flwyddyn i flwyddyn rhwng 2006 a 2017 (ac eithrio cynnydd mawr i wariant yn 2008 ac yna gostyngiad yn 2009). Mae'r data yn dangos mai bwyd a diod yw'r sector â'r gwariant mwyaf yn 2017, sef 49.4 miliwn, ac yna siopa (37.8 miliwn) a thrafnidiaeth (36.4 miliwn). O gymharu, roedd llety yn gyfrifol am 21.9 miliwn yn unig. Mae hyn yn adlewyrchu'r data a ddangosir yn Nangosydd 12 argraffiad 2014 Adroddiad Cyflwr y Parc, a nododd fod nifer yr ymwelwyr â'r Parc sy'n aros yn llawer is na nifer yr ymwelwyr dydd, a'i fod yn gymharol is na nifer yr ymwelwyr sy'n aros mewn Parciau Cenedlaethol eraill.

141. Mae'r ffigurau hyn yn dangos pwysigrwydd parhaus a chynyddol twristiaeth i economi Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Sector/Year	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Accommodation	16.7	17.8	19.4	16.2	17.0	16.9	17.5	16.9	17.1	19.6	20.0	21.9
Food & Drink	34.1	36.8	41.4	38.1	39.7	42.0	40.6	41.4	41.9	45.3	46.9	49.4
Recreation	11.3	12.2	13.7	12.7	13.2	14.0	13.5	13.7	13.9	15.0	15.5	16.4
Shopping	26.2	28.2	31.8	29.4	30.6	32.4	31.3	31.8	32.2	34.7	35.9	37.8
Transport	25.3	27.2	30.9	28.4	29.7	31.3	30.0	30.5	30.7	33.4	34.6	36.4
Direct Revenue	113.7	122.1	137.1	124.8	130.2	136.6	132.9	134.3	135.8	148.0	152.9	161.9
VAT	19.9	21.4	24.0	21.8	22.8	27.3	26.6	26.9	27.16	29.6	30.6	32.4
Direct Expenditure	133.6	143.5	161.1	146.6	153.0	163.9	159.5	161.1	163.0	177.7	183.5	194.2
Indirect Expenditure	46.4	49.8	55.8	50.9	52.9	56.9	55.4	55.8	56.2	61.3	63.8	67.2
Total	180.0	193.3	216.9	197.5	205.9	220.8	214.8	216.9	219.1	238.9	247.3	261.4

Ffigur 27 Gwariant twristiaeth yn ôl sector gwariant (data STEAM 2017)

142. Mae Cymdeithas yr Hostelau Ieuenctid (YHA) wedi cyhoeddi adroddiad ar westeion sy'n aros gyda'r YHA mewn Parciau Cenedlaethol[24]. Mae data sy'n benodol i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn dangos cynnydd cyson i westeion domestig a rhyngwladol dros y 5 mlynedd diwethaf.

[24] https://beaconsnpagovuk-my.sharepoint.com/:b:/g/personal/matthews_breconbeacons_org/EQ6bPLZnlAVBpDsn281Q2WUB8Gq-C788bd9Z--RCrd2cdw?e=tbq1nl

Ffigur 28 Gwesteion sy'n aros mewn hostel YHA ym Mannau Brycheiniog

Dangosydd 20 – Poblogaeth

143. Mae poblogaeth oedran cymysg barhaus yn bwysig ar gyfer llesiant cymunedol, gan gefnogi cymdeithas ac economi leol iach. Gall newidiadau demograffig lleol effeithio yn gritigol ac yn anadferadwy ar gadw cyfleusterau a gwasanaethau (e.e. ysgolion, tafarndai, siopau pentref a swyddfeydd post); ac felly hefyd cydnerthedd lleol, gan gynnwys gofal anffurfiol ar gyfer plant ac oedolion dibynnol a chymorth anffurfiol i aelodau'r gymuned ehangach, gan alluogi pobl o oedran gweithio i fod yn economaidd weithgar a phobl hŷn i aros yn eu cartrefi eu hunain.



Ffigur 29 Poblogaeth Parciau Cenedlaethol Cymru (Ffynhonnell: Stats Cymru, 2018)

144. Mae Ffigur 32 uchod yn dangos mai Bannau Brycheiniog sydd â'r boblogaeth fwyaf o'r tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru, sef 33,701 yn 2017, o'i chymharu â 22,459 yn Arfordir Sir Benfro a 25,355 yn Eryri.

145. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol[25] yn rhagweld y bydd poblogaeth Cymru yn cynyddu o 3,138,631 o bobl yn 2018, i 3,159,070 o bobl yn 2026 cyn gostwng eto i 3,117,538 o bobl yn 2041.

146. Wrth i ni ddisgwyl amcanestyniadau is-genedlaethol ar sail 2018, mae amcanestyniadau ar sail 2014 (gweler y graff isod) yn dangos y rhagwelir y bydd poblogaeth Bannau Brycheiniog yn dilyn y tueddiad hwn, â chynnydd o 1.9% rhwng 2014 a 2029 cyn gostwng eto. Bannau Brycheiniog yw'r unig Barc Cenedlaethol yng Nghymru y disgwylir i'w boblogaeth gynyddu, disgwylir gostyngiadau o 12.3% a 6.6% yn Arfordir Sir Benfro ac Eryri, yn y drefn honno.[26]



147. Mae amcanestyniadau poblogaeth yn defnyddio tybiaethau (wedi'u seilio ar dueddiadau diweddar) ynglŷn â genedigaethau, marwolaethau a mudo i gynnig amcangyfrifon o faint poblogaethau yn y dyfodol. Mae'r amcanestyniadau poblogaeth a ddangosir yn Ffigur 33 yn cynnwys y cyfnod o 25 mlynedd rhwng 2014 a 2039.

148. Mae poblogaeth sy'n heneiddio yn nodwedd ddemograffig gyffredin o Barciau Cenedlaethol yng Nghymru. Fel y dangosir yn y graff isod, mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn dilyn y tueddiad hwn. Mae'r graff yn dangos bod canran y boblogaeth ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol rhwng 0 a 44 oed. Fodd bynnag, rhwng yr ystodau oedran 45 i 85+ oed, mae canran y boblogaeth yn y Parc Cenedlaethol yn uwch na'r cyfartaledd yn gyson, ac mae'r gwahaniaeth mwyaf i'w weld rhwng 50 a 55 oed. Mae ffigurau cymharu rhwng 2011 a 2017 yn dangos sut y mae canran y boblogaeth rhwng 0 a 19 oed wedi cynyddu yn ystod y cyfnod hwn, ond felly hefyd y boblogaeth 65 oed neu hŷn.

Ffigur 30 Amcanestyniadau Poblogaeth Parciau Cenedlaethol (Ffynhonnell: Stats Cymru 2017)



Ffigur 31 Canran y Trigolion fesul grŵp oedran (Ffynhonnell: Stats Cymru)

149. Mae Llywodraeth Cymru[27] yn rhagweld y bydd gostyngiad i nifer yr aelwydydd ym Mharciau Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro ac Eryri rhwng 2014 a 2029, ac mae'n rhagweld cynnydd o 900 (5%) i nifer yr aelwydydd ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

	1 Person Households	2 Person Households (No children)	4 Person Households (2 adults + 2 children)
2014	4780	5180	1240
2019	5170	5270	1170
2024	5480	5290	1130
2029	5680	5220	1100

Ffigur 32 Amcanestyniadau o Aelwydydd (Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru 2017)

150. Gellid priodoli'r cynnydd i nifer yr aelwydydd i amrywiaeth o resymau gan gynnwys y newid i fathau o aelwydydd. Mae amcanestyniadau 2014-2029 Llywodraeth Crymu yn dangos newid o ran y math o aelwydydd mwyaf cyffredin o Aelwydydd 2 Berson (dim plant) yn 2019, i aelwydydd un person erbyn 2029.

[27] Llywodraeth Cymru (2017). Amcanestyniadau o Aelwydydd Parciau Cenedlaethol (ar sail 2014). Ar gael yn: https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/170726-household-projections-national-parks-2014-based-cy.pdf)



Ffigur 33 Amcanestyniadau mathau o aelwydydd 2014 – 2029 (Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru 2017)

151. Mae Ffigur 36 yn dangos y 3 math o aelwyd y disgwylir y byddant yn newid fwyaf ym mharc cenedlaethol Bannau Brycheiniog rhwng 2014 a 2029. Yn 2014, aelwydydd dau berson (dau oedolyn, dim plant) oedd y math mwyaf cyffredin o aelwyd. Fodd bynnag, mae amcanestyniadau Llywodraeth Cymru yn dynodi y bydd nifer yr aelwydydd un person yn cynyddu 19% (890 o aelwydydd) erbyn 2029, gan ei gwneud y math mwyaf cyffredin o aelwyd.

152. Rhagwelir y bydd y gostyngiad mwyaf ymysg aelwydydd pedwar person (o leiaf dau oedolyn ac un plentyn). Rhagwelir y bydd y grŵp hwn yn gostwng 11% (140 o aelwydydd) erbyn 2029.

153. Mae hwn yn ddangosydd pwysig ar gyfer cyflwr y parc gan ei fod yn cyd-fynd yn agos â phroblemau sy'n gysylltiedig â demograffeg sy'n heneiddio a cholli teuluoedd sy'n byw ac yn gweithio yn y Parc Cenedlaethol.

154. Gallai'r cynnydd i nifer yr aelwydydd un person effeithio'n negyddol ar gyflwr y parc, gan y gallai gynyddu'r galw am dai, ac arwain at danfeddiannu tai mwy.



Ffigur 34 Amcangyfrifon Maint Aelwydydd Cyfartalog

Dangosydd 21 – Tai

155. Cymunedau bywiog sy'n ffynnu yw'r rhai lle gall pobl gael gafael ar dai o ansawdd da ar lefel y gallant ei fforddio. Mae gwaith ymchwil a wnaed i gefnogi datblygiad polisi yn y parc cenedlaethol[28] wedi amlygu bod diffyg sylweddol o ran tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion ein cymuned[29]. Mae tai fforddiadwy yn hanfodol i gynaliadwyedd cymunedau gwledig, ac wrth i dai fod yn llai fforddiadwy mae demograffeg cymunedau yn newid, mae pobl ifanc yn cael eu prisio allan o'r farchnad dai, ac mae'r stoc dai sydd ar gael yn cael ei gwerthu i newydd-ddyfodiaid sydd wedi ymddeol neu fel ail gartrefi. Mae hyn yn cael effaith yn ei dro ar ddarpariaeth gwasanaethau gwledig fel ysgolion, tafarndai, siopau pentref a swyddfeydd post. Mae'r dangosyddion canlynol yn ystyried angen y cymunedau am dai dros y 15 mlynedd nesaf, lefel y tai fforddiadwy y rhagwelir y bydd ei hangen, ac ysgogiadau fforddiadwyedd tai o ran incwm cyfartalog o'i gymharu â phrisiau tai.



Ffigur 35 Yr angen am Dai Fforddiadwy yn y Parc

156. Nododd Cynllun Datblygu Lleol 2007-2022 angen am 1,248 o dai fforddiadwy, 83 o dai y flwyddyn ar gyfartaledd. Erbyn mis Ebrill 2019, cwblhawyd 140 o dai dros gyfnod y cynllun, sy'n cynrychioli 11% o'r cyfanswm sydd ei angen. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer 162 o anheddau fforddiadwy newydd rhwng 2013 a 2019.

[28] *Papur Materion Tai Fforddiadwy* Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 2010

[29] Mae Tai Fforddiadwy yn y cyd-destun hwn yn golygu tai a ddarperir gan Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (neu rywun cyfatebol) am rent neu berchnogaeth rannol ar lefelau a bennir gan Lywodraeth Cymru a all gael eu meddiannu gan bobl â chysylltiad lleol yn unig na allant fforddio cael gafael ar dai mewn unrhyw ffordd arall.

157. £244,099 oedd y pris tŷ cyfartalog ar draws Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn 2018, cynnydd o 14% yn y ddeng mlynedd ddiwethaf (data Lloyds ar y Parc Cenedlaethol a fforddiadwyedd).

158. Ar gyfartaledd, mae prisiau tai 25% yn uwch nag mewn mannau eraill yn lleol y tu allan i'r Parc Cenedlaethol. Mae'r gymhariaeth â Pharciau Cenedlaethol eraill ar gael isod[30].



Ffigur 36 Prisiau Tai yn y Parc Cenedlaethol (Ffynhonnell: data Lloyds ar brisiau a fforddiadwyedd tai (2018))

159. 8.6 yw'r gymhareb pris i enillion, a elwir hefyd y gymhareb fforddiadwyedd, ar gyfer Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (h.y. ar gyfartaledd, mae prisiau tai 8.6 gwaith yn fwy na'r incwm cyfartalog). Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd o 5.73 ledled Cymru. Mae amrywiad y mynegai fforddiadwyedd ar draws y Parciau Cenedlaethol i'w weld ar ffurf graffig isod.

[30] Data Lloyds ar brisiau a fforddiadwyedd tai (2018)



Ffigur 37 Cymhareb Fforddiadwyedd (Ffynhonnell: data Lloyds ar brisiau a fforddiadwyedd tai (2018))



Ffigur 38 Achosion o Gwblhau Tai yn y Parc Cenedlaethol (Ffynhonnell: Cydastudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai)

160. Mae'r graff uchod yn dangos mai cyfanswm yr achosion o gwblhau tai, ar safleoedd mawr a bach, ers dechrau'r cynllun cyfredol yw 870 o gartrefi, o'i gymharu â chynllun i adeiladu 1,592 erbyn diwedd 2019.

161. Mae data cwblhau tai (Ffigur 42 isod) yn dangos cyfanswm y tai newydd a gwblhawyd ers 2015 ar draws y parc. Dylid nodi hwn o'i gymharu â'r targedau yn y Cynllun Datblygu Lleol a ddiffiniodd angen am 1,990 o gartrefi i ddiwallu anghenion ein cymuned ar gyfer y cyfnod 2007-2022).



Ffigur 39 Tai a adeiladwyd ar safleoedd tai mawr 2015-2019

Dangosydd 22 – Cyfraddau Eiddo Gwag yng Nghanol Trefi

162. Mae monitro cyfraddau eiddo gwag yng nghanol trefi yn ddangosydd da o economi'r Parc ac yn cynnig syniad o sut y mae trefi yn y Parc yn diwallu anghenion cymunedau lleol a thwristiaid.



Ffigur 40 Cyfraddau Eiddo Gwag Blynyddol (1 Cyfnod Monitro = 1 Flwyddyn)

163. Mae Ffigur 43 yn dangos y cyfraddau eiddo gwag blynyddol ar gyfer 4 tref yn y Parc Cenedlaethol – Aberhonddu, Crucywel, y Gelli Gandryll a Thalgarth. Fel y mae'r data yn ei ddangos, roedd y gyfradd eiddo gwag uchaf yn Aberhonddu mewn 3 o'r 5 cyfnod monitro. Cofnodwyd y gyfradd eiddo gwag uchaf o 11% yn Nhalgarth, yn yr ail gyfnod monitro ac yn Aberhonddu yn y pumed cyfnod monitro. Ac eithrio'r pumed cyfnod monitro, roedd y gyfradd eiddo gwag isaf/isaf ar y cyd yn y Gelli Gandryll yn gyson. 10.3% oedd y gyfradd eiddo gwag genedlaethol ym mis Gorffennaf 2019 (Consortiwm Manwerthu Prydain). Mae hyn yn dangos bod cyfraddau yn y Parc Cenedlaethol, ac eithrio'r ddwy gyfradd eiddo gwag o 11%, yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. 11% yw cyfradd eiddo gwag gyfartalog Cymru.

164. Mae Ffigur 43 yn dangos hefyd fod yr holl ganolfannau yn dangos cyfraddau eiddo gwag uwch o flwyddyn i flwyddyn o'r trydydd cyfnod monitro, ac eithrio Talgarth lle mae'n ymddangos ei bod yn mynd i'r cyfeiriad arall. Mae'r holl ganolfannau manwerthu ar lefelau sy'n ysgogi camau gweithredu trwy'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae gan Aberhonddu gyfradd eiddo gwag uwch gan ei bod yn ganolfan fanwerthu wahanol iawn i'r rhai eraill a restrir, â throsiant manwerthu uwch ac arwynebedd llawr manwerthu sylweddol uwch. Mae'n fwy sylweddol na'r lleill i gyd wedi'u cyfuno felly, o ran gweithgarwch economaidd yn yr ardal a dylid rhoi sylw dyledus i ddata tueddiadau Aberhonddu.

Dangosydd 23 – Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

165. Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yw'r mesuriad swyddogol o amddifadedd ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru. Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn cynnwys wyth maes amddifadedd ar wahân: incwm; cyflogaeth; iechyd; addysg; tai; mynediad at wasanaethau; yr amgylchedd; a diogelwch cymunedol.

Defnyddir Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru i gynnig sgôr amddifadedd gyffredinol ar gyfer pob un o'r 1,909 o ardaloedd allbwn uwch is (LSOA) yng Nghymru ac i roi sgoriau ar gyfer y gwahanol feysydd amddifadedd ar gyfer pob LSOA. Rhoddir y sgôr amddifadedd uchaf i'r ardaloedd mwyaf difreintiedig. Yn gyffredinol, bydd gan gymunedau mewn ardaloedd gwledig fel y Parc Cenedlaethol sgôr uchel (h.y. yn ddifreintiedig) o ran mynediad at wasanaethau, a sgôr isel (h.y. nid ydynt yn ddifreintiedig) ar gyfer meysydd eraill (e.e. mynediad at wasanaethau amgylcheddol). Bydd y newid i'r sgôr dros amser ar gyfer y gwahanol ardaloedd (h.y. o'u cymharu ag ardaloedd eraill) yn dynodi'r newidiadau i lesiant cymharol cymunedau'r Parc Cenedlaethol.



Ffigur 41 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru Llywodraeth Cymru)

166. Mae Ffigur 44 yn nodi sgoriau'r ardaloedd allbwn uwch is (LSOA) ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn yr wyth maes amddifadedd.

Incwm

'Canran y boblogaeth mewn amddifadedd incwm. Hawlwyr budd-daliadau cysylltiedig ag incwm, pobl sy'n derbyn credydau treth gydag incwm llai na 60% canolrif Cymru; neu geiswyr lloches'

167. Yn 2008, 1 LSOA yn unig oedd yn y categori mwyaf difreintiedig (0-25%). Fodd bynnag, erbyn 2014, roedd hyn wedi cynyddu i 2. Rhwng 2008 a 2014, gostyngodd nifer yr LSOA yn y categori 25-50% o 10 i 6, a chynyddodd y nifer yn y categorïau 50-75% a 75-100% (y lleiaf difreintiedig) o 10 i 15 ac o 14 i 15 yn y drefn honno. Mae hyn yn dangos tueddiad cadarnhaol gan mai'r categori mwyaf

difreintiedig sydd â'r nifer isaf o LSOA, a'r categori lleiaf difreintiedig sydd â'r nifer uchaf o LSOA, â rhyw fymryn o gynnydd rhwng 2008 a 2014.

Cyflogaeth

'Canran y boblogaeth oedran gweithio sy'n derbyn budd-daliadau cysylltiedig â gwaith'

168. Ni newidiodd nifer yr LSOA yn y categori mwyaf difreintiedig, sef 3, rhwng 2008 a 2014, na chwaith nifer yr LSOA yn y categori 25-50%, sef 10. Mae nifer yr LSOA yn y categori lleiaf difreintiedig wedi gostwng o 17 yn 2008 i 14 yn 2014. Mae hyn wedi arwain at gynnydd o 9 i 11 i'r LSOA yn y categori 50-75%. Mae hyn yn dangos, er bod llawer mwy o LSOA yn y categori lleiaf difreintiedig o'i gymharu â'r mwyaf difreintiedig, y bu gostyngiad, wrth i nifer o'r LSOA symud i gategori mwy difreintiedig.

Maes Iechyd

'Mynychder canser, Salwch hirdymor cyfyngus, Y gyfradd marwolaethau, Pwysau geni isel'

169. Bu cynnydd i nifer yr LSOA yn y categori lleiaf difreintiedig o 1 yn 2008 i 2 yn 2014. Fodd bynnag, bu gostyngiad i nifer yr LSOA yn y categori 25-50% o 14 i 10, ac mae'r nifer yn y categori 50-75% wedi aros yr un fath, sef 9. Bu cynnydd i nifer yr LSOA yn y categori lleiaf difreintiedig o 15 i 17. Mae hyn yn dangos tueddiad cadarnhaol gan fod nifer yr LSOA yn y categori mwy difreintiedig wedi gostwng, gyda chynnydd cyfatebol i'r nifer yn y categori lleiaf difreintiedig.

Addysg

'Sgôr pwyntiau cyfartalog CA2, Sgôr pwyntiau wedi'i chapio CA4, CA 4 Lefel 2 Cynwysedig, Pobl 18-19 oed nad ydynt yn mynd ymlaen i AU, Oedolion 25-64 oed heb unrhyw gymwysterau, Absenoliaeth mynych'

170. Nid yw nifer yr LSOA yn y categorïau 0-25% (y mwyaf difreintiedig) a 25-50% wedi newid rhwng 2008 a 2014, sef 2 a 7 yn y drefn honno. Bu cynnydd i nifer yr LSOA yn y categori 50-75% o 15 i 16, ond gostyngiad yn y categori lleiaf difreintiedig o 15 i 13. O ran y maes addysg, bu rhyw fymryn o dueddiad tuag i lawr yn y Parc Cenedlaethol, yn sgil gostyngiad i nifer yr LSOA yn y categori lleiaf difreintiedig.

Mynediad at Wasanaethau

'Cyfartaledd amser teithio (gan drafnidiaeth gyhoeddus a phreifat) i: siop fwyd, feddygfa meddyg teulu, ganolfan hamdden, lyfrgell gyhoeddus, orsaf betrol (trafnidiaeth breifat yn unig), fferyllfa, swyddfa'r post, ysgol gynradd, ysgol uwchradd)'

171. Mae nifer yr LSOA yn y categori mwyaf difreintiedig wedi gostwng o 24 yn 2008 i 21 yn 2014, ac felly hefyd y nifer yn y categori 25-50% o 6 yn 2008 i 4 yn 2014. Bu cynnydd yn y categori 50-75% o 8 yn 2008 i 9 yn 2014. Fodd bynnag, cafwyd y cynnydd mwyaf yn y categori lleiaf difreintiedig o 1 yn 2008 i 4 yn 2014. Er bod hwn yn dueddiad cadarnhaol, gyda nifer yr LSOA lleiaf difreintiedig yn cynyddu, mae'r maes hwn yn dal i fod mewn cyflwr gwael gan fod llawer mwy o LSOA yn y categori mwyaf difreintiedig o hyd.

Tai

'Cartrefi gorlawn (mesur ystafelloedd gwely), Cartrefi heb wres canolog'

172. Arhosodd nifer yr LSOA yn y categori mwyaf difreintiedig yr un fath rhwng 2008 a 2014, sef 1. Mae nifer yr LSOA yn y categori 25-50% wedi cynyddu o 5 i 12, ond mae nifer yr LSOA yn y categori 50-75% wedi gostwng o 15 i 13, ac felly hefyd y nifer yn y categori lleiaf difreintiedig, o 18 i 12. Mae hyn yn dangos bod y maes tai yn y Parc Cenedlaethol yn dirywio, gan fod mwy o LSOA yn dod yn gynyddol ddifreintiedig.

Yr Amgylchedd Ffisegol

'Ansawdd Aer (Crynodiadau Aer ac Allyriadau Aer), Perygl o Lifogydd, ac Agosrwydd at Safleoedd Gwaredu Gwastraff a Safleoedd Diwydiannol'

173. Gostyngodd nifer yr LSOA yn y categori mwyaf difreintiedig o 6 i 5 rhwng 2008 a 2014. Cafwyd gostyngiad sylweddol yn y categori 25-50% o 17 i 10, ac felly hefyd yn y categori 50-75% o 11 i 10. Fodd bynnag, cafwyd cynnydd sylweddol yn y categori lleiaf difreintiedig o 5 i 13. Mae hyn yn dangos bod amgylchedd ffisegol y Parc Cenedlaethol wedi gwella rhwng 2008 a 2014.

Diogelwch Cymunedol

'Mesurau a gofnodir gan yr heddlu: Difrod troseddol, Troseddau treisgar, Ymddygiad gwrthgymdeithasol, Lladrad, Bwrgleriaeth; a Thanau'

174. Mae nifer yr LSOA yn y categori mwyaf difreintiedig wedi gostwng o 3 i 2 rhwng 2008 a 2014. Mae nifer yr LSOA yn y categorïau 25-50% a 50-75% wedi cynyddu o 5 i 8, ac o 15 i 16 yn y drefn honno. Mae nifer yr LSOA yn y categori lleiaf difreintiedig wedi gostwng o 16 i 12. Mae hyn yn dangos bod yr LSOA yn y Parc Cenedlaethol yn fwy difreintiedig yn 2014 nag yn 2008 o ran diogelwch cymunedol, er bod mwy o LSOA yn y categori lleiaf difreintiedig na'r mwyaf difreintiedig o hyd.

Atodiadau

Atodiad 1 – Tabl Cymharu Dangosyddion

Adroddiad Cyflwr y Parc 2006	Adroddiad Cyflwr y Parc 2014	Adroddiad Cyflwr y Parc 2020 Drafft	Dangosyddion lle mae angen rhagor o ddata
Diben 1af Cadwraeth a Gwella	**Thema 1: Rheoli Tirweddau'r Parc i Sicrhau'r Manteision Cadwraeth a Chyhoeddus Gorau Posib Thema 2: Gwarchod a Gwella Bioamrywiaeth**	**Pennod 1 – Natur a Hinsawdd**	**Pennod 1 – Natur a Hinsawdd**
SoDdGA Daearegol	Treftadaeth Ddaearegol (Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol)	Cyflwr SoDdGA Daearegol	Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr
SoDdGA Biolegol (Nifer a chyflwr)	Cyflwr SoDdGA Biolegol	Cyflwr SoDdGA Biolegol	Amonia Nwyol yn y Parc
Henebion cofrestredig (Nifer yr Henebion Rhestredig a'r % mewn cyflwr sefydlog/ffafriol)	Henebion Rhestredig (Nifer yr Henebion Rhestredig; % mewn cyflwr sefydlog/gwell)	Henebion Rhestredig (Pennod 2)	Lefelau carbon
Adeiladau rhestredig (Nifer a'r % mewn perygl)	Adeiladau Rhestredig (Nifer a'r % mewn perygl)	Adeiladau Rhestredig (Pennod 2)	Cyflenwad a defnydd ynni
Ystlumod		Clwydfannau Mamolaeth – Ystlumod	Gosodiadau ynni adnewyddadwy
Adar tir fferm bridio		Data Adar Bridio/Nythu	Clwydfannau Mamolaeth - Ystlumod ?
Digwyddiadau diwylliannol		Digwyddiadau Diwylliannol (Pennod 2)	Echdynnu dŵr blynyddol (yn disgwyl data gan Cyfoeth Naturiol Cymru)
Gorchudd coed llydanddail			Perygl llifogydd – nid map yn unig ond â dehongliad a ffigurau ar aneddiadau/datblygiadau yr effeithir arnynt, data Cyfoeth Naturiol Cymru ar rybuddion, digwyddiadau, ac ati
Ffiniau cae traddodiadol			Glawiad
	Ansawdd Dŵr	Ansawdd Dŵr	Gorchudd/diwrnodau eira – y Swyddfa Dywydd
	Data Risg o Lifogydd yn Thema 5	Perygl llifogydd	
	Data Cynefin Cam 1 Wedi'u Diweddaru (data 2013 a oedd yn cynnwys cymhariaeth o 1997)	Cynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaeth (Cyfeirio at ddata 2014 - defnyddiol?)	
	Asesiad Cymeriad Tirwedd (Cynllun Dosbarthu Gweledol a Synhwyraidd LANDMAP)		
		Cyflwr priddoedd/mawn	
		Gollyngiad afonydd	
		Ôl Troed Ecolegol Cyffredinol	
		Rhywogaethau Estron Goresgynnol	
		Ansawdd Aer	
		Natura 2000	
2il Ddiben Hybu Dealltwriaeth a Mwynhad	**Thema 3: Darparu Cyfleoedd am Fynediad a Hamdden Awyr Agored Thema 4: Gwella Ymwybyddiaeth a Dealltwriaeth o'r Parc**	**Pennod 2 – Diwylliant a Threftadaeth**	**Pennod 2 – Diwylliant a Threftadaeth**
Boddhad Ymwelwyr % yr ymwelwyr a oedd yn fodlon â'u hymweliad	Boddhad Ymwelwyr - data ynghylch bodloni/rhagori ar/methu â bodloni disgwyliadau		Asesiad Cymeriad Tirwedd
% yr Hawliau Tramwy sy'n hawdd eu defnyddio	% yr Hawliau Tramwy sy'n hawdd eu defnyddio	% yr Hawliau Tramwy sy'n hawdd eu defnyddio	Arwynebedd Tir a Ffermir yn ôl math
Ymwybyddiaeth o'r Parc Cenedlaethol			
Ymwelwyr sy'n defnyddio gwasanaethau Awdurdod y Parc Cenedlaethol			

Gwasanaethau addysg			
Llety i ymwelwyr			
	Erydiad ar Lwybrau yn yr Ucheldir	Erydiad ar Lwybrau yn yr Ucheldir	
	Nifer y Canolfannau Addysg Awyr Agored		
	Nifer yr Aneddiadau sy'n Elwa ar Wybodaeth		
	Cymhareb Ymwelwyr Sy'n Aros: Ymwelwyr Dydd		
		Y Gymraeg	
		Digwyddiadau Diwylliannol	
		Henebion Rhestredig yr Amgylchedd Hanesyddol	
		Adeiladau Rhestredig yr Amgylchedd Hanesyddol	
		Arwynebedd tir a ffermir yn ôl math	
Dyletswydd Cymunedau Cynaliadwy Bywiog	**Thema 5: Creu a Chynnal Cymunedau, Trefi a Phentrefi Cynaliadwy** **Thema 6: Datblygu Economaidd Cynaliadwy**	**Pennod 3 – Pobl a'r Economi**	**Pennod 3 – Pobl a'r Economi**
Gweithgarwch economaidd	Gweithgarwch economaidd		Cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim
Cyflogaeth yn ôl math o ddiwydiant	Cyflogaeth yn ôl math o ddiwydiant		Cerdded yn yr iseldiroedd ac Iechyd Meddwl
Gwariant twristiaeth		Gwariant Twristiaeth	Nifer y llwybrau teithio llesol
Proffil y boblogaeth	Rhywfaint o ddata poblogaeth yn y cyflwyniad	Poblogaeth	Cysylltiad band-eang a'i gyflymder
Ffermydd a ffermwyr	Cyflogaeth yn ôl Math o Ddiwydiant (Tabl ET1 Adroddiad Cyflwr y Parc 2014)		Map gwleidyddol dros amser
Mannau cyfarfod cymunedol			Data y Gronfa Awyr Dywyll Ryngwladol
Traffig (twristiaid)			Nifer y pwyntiau gwefru cyhoeddus yn y Parc
Llwybrau bws ac amlder gwasanaethau			
	Risg o lifogydd, Iefelau afonydd a newid hinsawdd	Perygl Llifogydd (Pennod 1)	
	Iechyd a Lles (Gweithgareddau a fwynheir yn y Parc Cenedlaethol – data arolwg trigolion)		
	Cymunedau sydd â Chynllun Pentref ac Asesiad Mannau Agored		
	Tai Fforddiadwy Ychwanegol		
		Tai	
		Cyfraddau eiddo gwag	
		Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru	

Atodiad 2 – Clwydfannau Mamolaeth Ystlumod[31]

19/07/2019 Neuadd Buckland Oedolion: 161

Ystlumod ifanc: 61 (cynhyrchiant o 38%)

(22 Gorffennaf 2018: 123 o Oedolion, 55 o ystlumod ifanc = 45%)

(23 Gorffennaf 2017: 140 o Oedolion, 33 o ystlumod ifanc = 23%)

21/07/2019 Tŷ Clydach Oedolion: 129 o'r to ac 1 o'r seler = cyfanswm o 130

Ystlumod ifanc: 15 (cynhyrchiant o 12%)

(24 Gorffennaf 2018: 92 o Oedolion, 22 o ystlumod ifanc = 24%)

(24 Gorffennaf 2017: 111 o Oedolion, 22 o ystlumod ifanc = 20%)

23/07/2019 Traphont Ddŵr Clydach Oedolion: 35

Ystlumod ifanc: 0 (cynhyrchiant o 0%)

(23 Gorffennaf 2018: 57 o Oedolion, 2 o ystlumod ifanc = 4%)

(25 Gorffennaf 2017: 44+ o Oedolion, 3 o ystlumod ifanc = 7%)

23/07/2019 Tŷ Ystlumod Nant yr Hafod Oedolion: 16 o'r ffenestr, 7 o'r bibell ac 8 dan do = cyfanswm o 31

Ystlumod ifanc: dim = 0%

(23 Gorffennaf 2018: 25 o Oedolion, 0 o ystlumod ifanc = 0%)

(25 Gorffennaf 2017: 2 Oedolyn, 0 ystlumod ifanc = 0%; 20/7/2016: 2 oedolyn ac 1 ystlum ifanc = 50%)

Cyfanswm y pedair glwydfan: Cyfanswm o 357 o Oedolion, 76 o ystlumod ifanc = cynhyrchiant o 21%

(2018: Cyfanswm o 297 o Oedolion, 79 o ystlumod ifanc = cynhyrchiant o 27%)

(2017: 297 o Oedolion, 58 o ystlumod ifanc = 20%)

(2016: 269 o Oedolion, 70 o ystlumod ifanc = 26%)

O ddiystyru'r draphont ddŵr a'r tŷ ystlumod (gan nad oedd unrhyw ystlumod ifanc yn y naill na'r llall), cyfanswm y niferoedd cynhyrchiant yw 291 o oedolion, 76 o ystlumod ifanc = 26%.

[31] Dr. P.G. Smith, CEnv, MCIEEM – Cyfrifiadau Clwydfannau Mamolaeth HOV2 yr A465 (2019)

Fodd bynnag, ein safon hyd yma fu cynnwys y ddwy glwydfan hynny gan eu bod yn hygyrch i asesu cynhyrchiant a gan eu bod yn elfennau o'r boblogaeth leol sy'n defnyddio cwm Clydach ceir dadl gref dros eu cynnwys yn hytrach na'u heithrio o'r asesiad cynhyrchiant.

Ar y cyfan, nid yw'n ymddangos bod unrhyw destun pryder. Mae cyfanswm yr ystlumod ifanc yn debyg iawn i'r llynedd, a oedd yr uchaf erioed (76 o'i gymharu â 79). Mae'r cynhyrchiant yn is oherwydd y cynnydd amlwg i'r cyfrif oedolion fis Gorffennaf ers y llynedd (357 o'i gymharu â 297). Y cyfrif ystlumod ifanc yn Neuadd Buckland yw'r uchaf erioed. Mae cyfrif oedolion Neuadd Buckland o 161 yn llawer uwch na'r llynedd a'r unig ffigur uwch yw'r cyfrif oedolion o fis Gorffennaf 2011 sef 164 (pan roedd y cyfrif ystlumod ifanc yn 34) a chyfrif brig cyn-esgor y llynedd (nad oes modd ei gymharu yn union) o 171.

Mae'r cyfrif ystlumod ifanc isel yn Nhŷ Clydach yn siomedig, ond efallai nad yw'n destun pryder o reidrwydd. Yn Nhŷ Clydach, roedd y cyfrif ystlumod ifanc wedi bod oddeutu 15 yn rheolaidd tan dair blynedd yn ôl, ac ers hynny mae wedi bod yn yr 20au isel. Nid oes dealltwriaeth pam mae'n ymddangos bod cynhyrchiant Tŷ Clydach gymaint yn is na Neuadd Buckland, ac eto mae cyfrif mis Gorffennaf o 130 o oedolion yr uchaf a gofnodwyd erioed yn Nhŷ Clydach (y rhagorwyd arno gan frig cyn-esgor y llynedd o 131 yn unig), felly mae rhywbeth yn iawn yn y glwydfan hon. O bosibl mae rhai o'r oedolion yn cario ystlumod ifanc allan o'r glwydfan pan fyddant yn cael eu geni i ddefnyddio clwydfan ofal yn rhywle arall.

Dr. P.G. Smith, CEnv, MCIEEM

Cyfarwyddwr a Phrif Ecolegydd

Atodiad 3 – Amonia Nwyol

Mae amonia nwyol yn deillio o amaethyddiaeth ddwys, yn enwedig ffermio dofednod a llaeth, llosgi biomas a gweithgynhyrchu a defnyddio gwrtaith.

Wrth i lefelau llygryddion aer eraill ddirywio, mae allyriadau amonia yn y DU wedi bod yn cynyddu ers 2013, gan arwain at oblygiadau arwyddocaol i iechyd ecosystemau a phobl. Gall rhyddhau amonia i'r atmosffer gael ei ddefnyddio am nifer o resymau, a'r prif reswm yw ffynonellau amaethyddol, a oedd yn gyfrifol am 88% o allyriadau amonia blynyddol y DU yn 2016.[32]

Mae lefelau amonia nwyol yn ddangosydd hanfodol ar gyfer cyflwr y Parc gan y gall lefelau uchel o Amonia gael effeithiau niweidiol ar bridd, bioamrywiaeth planhigion, cyrff dŵr ac organebau dyfrol, a chen a mwsogl sydd i'w gweld mewn corsydd a mawndir.



[32] DEFRA (2018). *Air Pollution from Agriculture*. Ar gael yn: https://uk-air.defra.gov.uk/assets/documents/reports/aqeg/2800829_Agricultural_emissions_vfinal2.pdf

Nid oes unrhyw safleoedd amonia wedi'u lleoli yn y Parc Cenedlaethol ar hyn o bryd, ond ceir tri sy'n agos; Llyn Brianne (Powys), Holme Lacy (Swydd Henffordd) a Phenallt (Sir Fynwy). Cofnodwyd y data ar gyfer y graff hwn gan y Rhwydwaith Cenedlaethol Monitro Amonia ar safle Llyn Brianne ym Mhowys – gogledd-orllewin y Parc Cenedlaethol.

Fel y dangosir yn y data, mae lefel yr amonia nwyol yn amrywio yn fawr o flwyddyn i flwyddyn. Gan ddefnyddio 2000 fel y llinell sylfaen, a'r ffigur o 0.2ug/m^3, yn ystod y cyfnod 2000-2016, roedd 7 mlynedd yn is na'r llinell sylfaen (2001, 2004, 2005, 2008, 2012, 2013 a 2015), ac roedd y 9 mlynedd arall naill ai'r un fath neu'n uwch. Yn 2016 y cofnodwyd y ffigur cymedr uchaf a mwyaf diweddar, sef 0.5ug/m^3. Y lefel critigol ar gyfer effeithiau amonia ar lystyfiant yw crynodiad cymedr blynyddol o 8.0ug/m^3. Mae'r lefelau sy'n bresennol ar y safle monitro yn is na'r trothwy hwn.

Gellid disgwyl i lefelau amonia yn y Parc Cenedlaethol fod yn uwch nag mewn ardaloedd eraill oherwydd lefelau uchel y gweithgarwch amaethyddol yr ymgymerir â nhw. (Yn 2019, Amaethyddiaeth, Coedwigaeth a Physgota oedd y pedwerydd diwydiant mwyaf yn y Parc, gan gyflogi 7.41% o'r boblogaeth. Disgwylir i'r ffigur hwn ostwng rhyw fymryn i 7.23% erbyn 2029).

Atodiad 4 – Safleoedd Natura 2000 a Chyflwr Nodweddion

Site Name	Site Code	Site Type	Grid Ref	Feature name (formal)	Feature name (informal)	Broad environment	Feature Type	Feature category	Feature condition: Most recent assessment	Date of most recent assessment
Afon Tywi/ River Tywi	UK0013010	SAC	SN687263	Alosa alosa (R)	Allis shad. (R)	Freshwater	Species	Fish	Unfavourable: Un-classified	May-12
Afon Tywi/ River Tywi	UK0013010	SAC	SN687263	Lampetra planeri (R)	Brook lamprey. (R)	Freshwater	Species	Fish	Unfavourable: Un-classified	Jan-11
Afon Tywi/ River Tywi	UK0013010	SAC	SN687263	Cottus gobio (R)	Bullhead. (R)	Freshwater	Species	Fish	Unfavourable: Un-classified	Jan-12
Afon Tywi/ River Tywi	UK0013010	SAC	SN687263	Lutra lutra (R)	Otter. (R)	Freshwater	Species	Mammals	Favourable: Maintained	Mar-10
Afon Tywi/ River Tywi	UK0013010	SAC	SN687263	Lampetra fluviatilis (R)	River lamprey. (R)	Freshwater	Species	Fish	Unfavourable: Un-classified	Jan-11
Afon Tywi/ River Tywi	UK0013010	SAC	SN687263	Petromyzon marinus (R)	Sea lamprey. (R)	Freshwater	Species	Fish	Unfavourable: Un-classified	Jan-11
Afon Tywi/ River Tywi	UK0013010	SAC	SN687263	Alosa fallax (R)	Twaite shad. (R)	Freshwater	Species	Fish	Unfavourable: Un-classified	May-12
Blaen Cynon	UK0030092	SAC	SN946066	Euphydryas (Eurodryas, Hypodryas) aurinia (R)	Marsh fritillary butterfly. (R)	Terrestrial	Species	Butterflies	Unfavourable: Un-classified	Sep-08
Brecon Beacons/ Bannau Brycheiniog	UK0030096	SAC	SO024211	European dry heaths	Dry heaths.	Terrestrial	Habitat	Dwarf shrub heath	Unfavourable: Un-classified	Jul-10
Brecon Beacons/ Bannau Brycheiniog	UK0030096	SAC	SO024211	Calcareous rocky slopes with chasmophytic vegetation	Plants in crevices in base-rich rocks.	Terrestrial	Habitat	Inland rock	Unfavourable: Un-classified	Jul-10
Brecon Beacons/ Bannau Brycheiniog	UK0030096	SAC	SO024211	Siliceous rocky slopes with chasmophytic vegetation	Plants in crevices on acid rocks.	Terrestrial	Habitat	Inland rock	Unfavourable: Un-classified	Jul-10
Brecon Beacons/ Bannau Brycheiniog	UK0030096	SAC	SO024211	Hydrophilous tall herb fringe communities of plains and of the montane to alpine levels	Tall herb communities.	Terrestrial	Habitat	Inland rock	Unfavourable: Un-classified	Jul-10
Coed y Cerrig	**UK0012766**	**SAC**	**SO291210**	**Alluvial forests with Alnus glutinosa and Fraxinus excelsior (Alno-Padion, Alnion incanae, Salicion albae)**	**Alder woodland on floodplains.**	**Terrestrial**	**Habitat**	**Broad-leaved, mixed and yew woodland**	**Favourable: Maintained**	**May-12**
Coedydd Nedd a Mellte	**UK0030141**	**SAC**	**SN919093**	**Tilio-Acerion forests of slopes, screes and ravines**	**Mixed woodland on base-rich soils associated with rocky slopes.**	**Terrestrial**	**Habitat**	**Broad-leaved, mixed and yew woodland**	**Unfavourable: Un-classified**	**Sep-16**
Coedydd Nedd a Mellte	UK0030141	SAC	SN919093	Old sessile oak woods with Ilex and Blechnum in the British Isles	Western acidic oak woodland.	Terrestrial	Habitat	Broad-leaved, mixed and yew woodland	Unfavourable: Un-classified	Sep-16
Cwm Cadlan	UK0013585	SAC	SN961098	Alkaline fens				d swamp	Unfavourable: Un-classified	Sep-16
Cwm Cadlan	UK0013585	SAC	SN961098	Molinia meadows o peaty or clayey-silt-laden soils (Molinion caeruleae)	Purple moor-grass meadows.	Terrestrial	Habitat	Fen, marsh and swamp	Unfavourable: Declining	Sep-16

89.9%

Cwm Clydach Woodlands / Coedydd Cwm Clydach	UK0030127	SAC	SO207123	Atlantic acidophilous beech forests with Ilex and sometimes also Taxus in the shrublayer (Quercion robori-petraeae or Ilici-Fagenion)	Beech forests on acid soils.	Terrestrial	Habitat	Broad-leaved, mixed and yew woodland	Favourable: Maintained	Jul-15
Cwm Clydach Woodlands / Coedydd Cwm Clydach	UK0030127	SAC	SO207123	Asperulo-Fagetum beech forests	Beech forests on neutral to rich soils.	Terrestrial	Habitat	Broad-leaved, mixed and yew woodland	Favourable: Maintained	Jul-15
Llangorse Lake/ Llyn Syfaddan	UK0012985	SAC	SO131262	Natural eutrophic lakes with Magnopotamion or Hydrocharition-type vegetation	Naturally nutrient-rich lakes or lochs which are often dominated by pondweed.	Freshwater	Habitat	Standing open water and canals	Unfavourable: No-change	Aug-11
River Usk/ Afon Wysg	UK0013007	SAC	SO214182	Alosa alosa (R)	Allis shad. (R)	Freshwater	Species	Fish	Unfavourable: Un-classified	Jan-12
River Usk/ Afon Wysg	UK0013007	SAC	SO214182	Salmo salar (R)	Atlantic salmon. (R)	Freshwater	Species	Fish	Unfavourable: Un-classified	Jan-12
River Usk/ Afon Wysg	UK0013007	SAC	SO214182	Lampetra planeri (R)	Brook lamprey. (R)	Freshwater	Species	Fish	Unfavourable: Un-classified	Nov-12
River Usk/ Afon Wysg	UK0013007	SAC	SO214182	Cottus gobio (R)	Bullhead. (R)	Freshwater	Species	Fish	Unfavourable: Un-classified	Jan-12
River Usk/ Afon Wysg	UK0013007	SAC	SO214182	Lutra lutra (R)	Otter. (R)	Freshwater	Species	Mammals	Favourable: Recovered	Mar-10
River Usk/ Afon Wysg	UK0013007	SAC	SO214182	Lampetra fluviatilis (R)	River lamprey. (R)	Freshwater	Species	Fish	Unfavourable: Un-classified	Nov-12
River Usk/ Afon Wysg	UK0013007	SAC	SO214182	Water courses of plain to montane levels with the Ranunculion fluitantis and Callitricho-Batrachion vegetation	Rivers with floating vegetation often dominated by water-crowfoot.	Freshwater	Habitat	Rivers & streams	Unfavourable: Un-classified	Jan-12
River Usk/ Afon Wysg	UK0013007	SAC	SO214182	Petromyzon marinus (R)	Sea lamprey. (R)	Freshwater	Species	Fish	Unfavourable: Un-classified	Nov-12
River Usk/ Afon Wysg	UK0013007	SAC	SO214182	Alosa fallax (R)	Twaite shad. (R)	Freshwater	Species	Fish	Unfavourable: Un-classified	Jan-12
River Wye/ Afon Gwy	UK0012642	SAC	SO547368	Alosa alosa (R)	Allis shad. (R)	Freshwater	Species	Fish	Unfavourable: Un-classified	Jan-12
River Wye/ Afon Gwy	UK0012642	SAC	SO547368	Salmo salar (R)	Atlantic salmon. (R)	Freshwater	Species	Fish	Unfavourable: Un-classified	Jan-12
River Wye/ Afon Gwy	UK0012642	SAC	SO547368	Lampetra planeri (R)	Brook lamprey. (R)	Freshwater	Species	Fish	Unfavourable: Un-classified	Jan-12
River Wye/ Afon Gwy	UK0012642	SAC	SO547368	Cottus gobio (R)	Bullhead. (R)	Freshwater	Species	Fish	Unfavourable: Un-classified	Dec-16
River Wye/ Afon Gwy	UK0012642	SAC	SO547368	Lutra lutra (R)	Otter. (R)	Freshwater	Species	Mammals	Favourable: Recovered	Mar-10
River Wye/ Afon Gwy	UK0012642	SAC	SO547368	Lampetra fluviatilis (R)	River lamprey. (R)	Freshwater	Species	Fish	Unfavourable: Un-classified	Jan-12
River Wye/ Afon Gwy	UK0012642	SAC	SO547368	Water courses of plain to montane levels with the Ranunculion fluitantis and Callitricho-Batrachion vegetation	Rivers with floating vegetation often dominated by water-crowfoot.	Freshwater	Habitat	Rivers & streams	Unfavourable: Un-classified	Jan-12

River Wye/ Afon Gwy	UK0012642	SAC	SO547368	Petromyzon marinus (R)	Sea lamprey. (R)	Freshwater	Species	Fish	Unfavourable: Un-classified	Jan-12
River Wye/ Afon Gwy	UK0012642	SAC	SO547368	Alosa fallax (R)	Twaite shad. (R)	Freshwater	Species	Fish	Unfavourable: Un-classified	Jan-12
River Wye/ Afon Gwy	UK0012642	SAC	SO547368	Transition mires and quaking bogs	Very wet mires often identified by an unstable 'quaking' surface.	Terrestrial	Habitat	Fen, marsh and swamp	Unfavourable: Declining	Jul-12
River Wye/ Afon Gwy	UK0012642	SAC	SO547368	Austropotamobius pallipes (R)	White-clawed (or Atlantic stream) crayfish. (R)	Freshwater	Species	Other invertebrates	Unfavourable: Un-classified	Sep-16
Sugar Loaf Woodlands	UK0030072	SAC	SO295166	Old sessile oak woods with Ilex and Blechnum in the British Isles	Western acidic oak woodland.	Terrestrial	Habitat	Broad-leaved, mixed and yew woodland	Unfavourable: Un-classified	Apr-09
Usk Bat Sites/ Safleoedd Ystlumod Wysg	**UK0014784**	**SAC**	**SO190145**	**Blanket bogs**	**Blanket bog.**	**Terrestrial**	**Habitat**	**Bogs**	**Unfavourable: Un-classified**	**Sep-10**
Usk Bat Sites/ Safleoedd Ystlumod Wysg	UK0014784	SAC	SO190145	Caves not open to the public	Caves not open to the public.	Terrestrial	Habitat	Inland rock	Favourable: Maintained	Nov-12
Usk Bat Sites/ Safleoedd Ystlumod Wysg	UK0014784	SAC	SO190145	Degraded raised bogs still capable of natural regeneration	Degraded raised bog.	Terrestrial	Habitat	Bogs	Unfavourable: Un-classified	Oct-16
Usk Bat Sites/ Safleoedd Ystlumod Wysg	UK0014784	SAC	SO190145	European dry heaths	Dry heaths.	Terrestrial	Habitat	Dwarf shrub heath	Unfavourable: Un-classified	Mar-12
Usk Bat Sites/ Safleoedd Ystlumod Wysg	UK0014784	SAC	SO190145	Rhinolophus hipposideros (R)	Lesser horseshoe bat. (R)	Terrestrial	Species	Mammals	Favourable: Maintained	Nov-12
Usk Bat Sites/ Safleoedd Ystlumod Wysg	**UK0014784**	**SAC**	**SO190145**	**Tilio-Acerion forests of slopes, screes and ravines**	**Mixed woodland on base-rich soils associated with rocky slopes.**	**Terrestrial**	**Habitat**	**Broad-leaved, mixed and yew woodland**	**Favourable: Maintained**	**Aug-12**
Usk Bat Sites/ Safleoedd Ystlumod Wysg	UK0014784	SAC	SO190145	Calcareous rocky slopes with chasmophytic vegetation	Plants in crevices in base-rich rocks.	Terrestrial	Habitat	Inland rock	Favourable: Maintained	Jul-12

Atodiad 5 – Safleoedd Natura 2000 a Chyflwr Nodweddion (Cyfoeth Naturiol Cymru 2020)

ENW'R PARC CENEDLAETHOL	NODWEDD	F2007_2010				
		-	Ffafriol	Heb ei asesu	Anffafriol	Cyfanswm
Bannau Brycheiniog	Ffeniau alcalïaidd		84.20			**84.20**
	Coedwigoedd llifwaddodol ag Alnus glutinosa a Fraxinus excelsior (Alno-Padion, Alnion incanae, Salicion alvae)		9.15			**9.15**
	Alosa alosa				413.67	**413.67**
	Alosa fallax				413.67	**413.67**
	Coedwigoedd ffawydd Asperulo-Fagetum		28.77			**28.77**
	Coedwigoedd ffawydd asidoffilws yr lwerydd ag Ilex ac weithiau Taxus hefyd yn yr haen lwyni (Quercion robori-petraeae neu Ilici-Fagenion)		28.77			**28.77**
	Austropotamobius pallipes				9.63	**9.63**
	Gorgors				1686.03	**1686.03**
	Llethrau creigiog calchaidd â llystyfiant casmoffytig		1686.03		268.99	**1955.01**
	Ogofâu nad ydynt ar agor i'r cyhoedd		1686.03			**1686.03**
	Cottus gobio				413.67	**413.67**
	Cyforgors wedi dirywio (sy'n dal yn gallu atgynhyrchu yn naturiol)				1686.03	**1686.03**
	Euphydryas aurinia				14.55	**14.55**
	Gweundiroedd sych Ewropeaidd				1955.01	**1955.01**
	Cymunedau ymylol blodau uchel hydroffilaidd o wastatiroedd ac o'r lefelau mynydd i alpaidd				268.99	**268.99**
	Lampetra fluviatilis				413.67	**413.67**
	Lampetra planeri		404.04		9.63	**413.67**
	Lutra lutra		413.67			**413.67**
	Dolydd gwellt y gweunydd ar briddoedd calchaidd, mawnaidd neu gleiog llawn gwaddod (Molinion caenuleae)		84.20			**84.20**
	Llynnoedd ewtroffig naturiol â llystyfiant o fath Magnopotamion neu Hydrocharition				216.10	**216.10**
	Dim data – rheolir y safle gan Natural England	0.01				**0.01**
	Hen goedydd derw digoes ag Ilex a Blechnum yn Ynysoedd Prydain				503.41	**503.41**
	Petromyzon marinus		9.63		404.04	**413.67**
	Rhinolophus hipposideros		1686.03			**1686.03**
	Salmo salar				413.67	**413.67**
	Llethrau creigiog silicaidd â llystyfiant casmoffytig				268.99	**268.99**
	Coedwigoedd Tilio-Acerion o lethrau, sgrïau a cheunentydd		1686.03		329.25	**2015.27**
	Mignenni pontio a chorsydd crynedig				9.63	**9.63**
	Cyrsiau dŵr o lefelau gwastatir i fynydd â'r llystyfiant Ranunculion fluitantis a Callitricho-Batrachion vegetation				413.67	**413.67**
	CYFANSWM	**0.01**	**7806.53**		**10112.31**	**17918.85**

Atodiad 6 – Statws Cemegol Cyrff Dŵr[33]

	2009	2010	2011	2012	2013 (Cylch 1)	2013 (Cylch 2)	2014 (Cylch 1)	2014 (Cylch 2)	2015 (Cylch 1)	2015 (Cylch 1)	2017	2018
Cronfa Ddŵr Wysg	Heb ei asesu	Heb ei asesu	Heb ei asesu	Heb ei asesu	Heb ei asesu	Da	Heb ei asesu	Da	Heb ei asesu	Da	Uchel	Da
Cronfa Ddŵr Crai	Heb ei asesu	Heb ei asesu	Heb ei asesu	Heb ei asesu	Heb ei asesu	Da	Heb ei asesu	Da	Heb ei asesu	Da	Uchel	Da
Cronfa Ddŵr Talybont	Heb ei asesu	Heb ei asesu	Heb ei asesu	Da	Da	Da	Da	Da	Da	Da	Uchel	Da
Wysg - Cydlifiad Afon Hydfer i Gydlifiad Afon Senni	Heb ei asesu	Heb ei asesu	Heb ei asesu	Heb ei asesu	Heb ei asesu	Da	Heb ei asesu	Da	Heb ei asesu	Da	Uchel	Da
Wysg - Cydlifiad Afon Senni i Gydlifiad Afon Crawnon	Heb ei asesu	Heb ei asesu	Heb ei asesu	Heb ei asesu	Heb ei asesu	Da	Heb ei asesu	Da	Heb ei asesu	Da	Uchel	Da
Wysg – Cydlifiad Afon Crawnon i Gydlifiad Afon Gafenni	Heb ei asesu	Heb ei asesu	Heb ei asesu	Heb ei asesu	Heb ei asesu	Da	Heb ei asesu	Da	Heb ei asesu	Da	Uchel	Da

[33] Yn cynnwys gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata. Cedwir pob hawl

Atodiad 7 – Statws Ecolegol Cyrff Dŵr[34]

	2009	2010	2011	2012	2013 (Cylch 1)	2013 (Cylch 2)	2014 (Cylch 1)	2014 (Cylch 2)	2015 (Cylch 1)	2015 (Cylch 2)	2017	2018
Cronfa Ddŵr Wysg	Da	Da	Da	Da	Da	Da	Da	Da	Da	Da	Da	Da
Cronfa Ddŵr Crai	Da	Da	Da	Da	Da	Da	Da	Da	Cymedrol	Cymedrol	Cymedrol	Cymedrol
Cronfa Ddŵr Talybont	Cymedrol	Cymedrol	Cymedrol	Cymedrol	Gwael	Cymedrol	Cymedrol	Cymedrol	Cymedrol	Cymedrol	Cymedrol	Cymedrol
Wysg - Cydlifiad Afon Hydfer i Gydlifiad Afon Senni	Cymedrol	Cymedrol	Cymedrol	Cymedrol	Cymedrol	Da	Cymedrol	Da	Cymedrol	Cymedrol	Da	Da
Wysg - Cydlifiad Afon Senni i Gydlifiad Afon Crawnon	Cymedrol	Cymedrol	Cymedrol	Cymedrol	Cymedrol	Da	Cymedrol	Da	Cymedrol	Da	Da	Da
Wysg – Cydlifiad Afon Crawnon i Gydlifiad Afon Gafenni	Cymedrol	Da	Da	Da	Da	Da	Da	Da	Cymedrol	Cymedrol	Cymedrol	Cymedrol

[34] Yn cynnwys gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata. Cedwir pob hawl

Atodiad 8 – Statws Cyrff Dŵr Cyffredinol

	Cronfa Ddŵr Wysg	Cronfa Ddŵr Crai	Cronfa Ddŵr Talybont	Wysg - Cydlifiad Afon Hydfer i Gydlifiad Afon Senni	Wysg - Cydlifiad Afon Senni i Gydlifiad Afon Crawnon	Wysg – Cydlifiad Afon Crawnon i Gydlifiad Afon Gafenni
2009	Da	Da	Cymedrol	Cymedrol	Cymedrol	Cymedrol
2010	Da	Da	Cymedrol	Cymedrol	Cymedrol	Da
2011	Da	Da	Cymedrol	Cymedrol	Cymedrol	Da
2012	Da	Da	Cymedrol	Cymedrol	Cymedrol	Da
2013 Cylch 1	Da	Da	Gwael	Cymedrol	Cymedrol	Da
2013 Cylch 2	Da	Da	Cymedrol	Da	Da	Da
2014 Cylch 1	Da	Da	Cymedrol	Cymedrol	Cymedrol	Da
2014 Cylch 2	Da	Da	Cymedrol	Da	Da	Da
2015 Cylch 1	Da	Cymedrol	Cymedrol	Cymedrol	Cymedrol	Cymedrol
2015 Cylch 2	Da	Cymedrol	Cymedrol	Cymedrol	Da	Cymedrol
2017	Da	Cymedrol	Cymedrol	Da	Da	Cymedrol
2018	Da	Cymedrol	Cymedrol	Da	Da	Cymedrol

Atodiad 9 – Statws Cyrff Dŵr

Mae'r tabl isod yn nodi'r gwahanol ffactorau a ystyrir wrth fesur statws corff dŵr:

Statws Cemegol	Mae'r statws cemegol yn unol â'r safonau amgylcheddol ar gyfer cemegau sy'n sylweddau blaenoriaeth ac yn sylweddau peryglus blaenoriaeth yn safonau ansawdd amgylcheddol y Gyfarwyddeb Safonau Ansawdd Amgylcheddol. Cofnodir statws cemegol fel da neu fethu, ac fe'i penderfynir gan y canlyniad prawf gwaethaf.
Statws Ecolegol	Mae statws ecolegol wedi'i seilio ar nifer o elfennau ansawdd gan gynnwys ansawdd biolegol, ansawdd cemegol cyffredinol a ffisigo-gemegol, ansawdd dŵr o ran llygryddion penodol (synthetig a heb fod yn synthetig), ac ansawdd hydromorffolegol. Cofnodir statws ecolegol fel uchel, da, cymedrol, gwael neu wael iawn.
Elfennau ansawdd biolegol	Nodwedd neu briodwedd elfen fiolegol (e.e. ffytoplancton, macroffytau, ffytobenthoau, ffawna a physgod sy'n infertebratau benthig)
Y Galw Biocemegol am Ocsigen	Y Galw Biocemegol am Ocsigen yw'r galw am ocsigen a achosir gan organebau mewn dŵr a gwaddod yn gweithredu ar ddeunydd organig ocsidiadwy, a dangosydd allweddol o ocsigeniad cyrff dŵr. Mae galw biocemegol uchel am ocsigen fel rheol o ganlyniad i lygredd organig, a achosir gan ollyngiadau o weithfeydd trin dŵr gwastraff, elifion diwydiannol a dŵr ffo amaethyddol. Mae galw biocemegol uchel am ocsigen yn cael sawl effaith ar yr amgylchedd dyfrol gan gynnwys lleihau ansawdd dŵr cemegol a biolegol, lleihau bioamrywiaeth cymunedau dyfrol a lleihau ansawdd microbiolegol dyfroedd.
Ocsigen tawdd	Mae rhyngweithio cymhleth rhwng prosesau ecolegol, a gweithgareddau pobl yn effeithio ar lefelau ocsigen mewn cyrff dŵr. Mae ocsigen tawdd yn cyfeirio at lefel yr ocsigen rhydd nad yw'n gyfansawdd sy'n bresennol mewn dŵr. Mae'n baramedr pwysig wrth asesu ansawdd dŵr oherwydd ei ddylanwad ar yr organebau sy'n byw mewn corff dŵr. Gall lefel ocsigen tawdd sy'n rhy uchel neu'n rhy isel niweidio bywyd dyfrol ac effeithio ar ansawdd dŵr.
pH	Mae pH corff dŵr yn adlewyrchu asidedd ac mae'n fesuriad pwysig gan ei fod yn dylanwadu ar bob proses gemegol a biolegol (e.e. rhwymo gwaddodion, ffynonellau carbon ar gyfer ffotosynthesis, rhywogaethau cemegol a datblygu effeithiau gwenwynig llygryddion). Gall newid i lefelau pH gael effeithiau sylweddol ar ecoleg dŵr felly.
Tymheredd	Mae cyfnewid gwres â'r atmosffer yn cael effaith fawr ar dymheredd dŵr, felly mae tymheredd aer uwch yn arwain at dymheredd dŵr uwch. Gall tymheredd dŵr

	uwch arwain at newidiadau i gyflyrau cemego-ffisegol a biolegol, a allai arwain at ganlyniadau i strwythur a gwasanaethau ecosystemau.
Elfennau ategol hydromorffolegol	Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn diffinio elfennau hydromorffolegol fel rhai sy'n ategu'r elfennau biolegol. Mae gan bob corff dŵr wyneb elfennau ansawdd hydromorffolegol penodol, ond yn wahanol i elfennau biolegol, gan fod elfennau hydromorffolegol yn rhai ategol yn unig, maent yn cyfrannu at ddosbarthiad statws ar gyfer cyrff dŵr o statws ecolegol uchel yn unig.
Morffoleg	Mae morffoleg yn cyfeirio at ffurf a chyflwr ffisegol corff dŵr, er enghraifft lled, dyfnder a pherimedr sianel afon, strwythur a chyflwr gwely'r afon a'r lan.
Infertebratau	Ceir gwahanol fathau o infertebratau fel Infertebratau Benthig a Macroinfertebratau, ac mae'r ddau ohonynt yn ddangosyddion da o ansawdd dŵr. Mae infertebratau benthig (e.e. mwydod, sboncwyr tywod a chregyn cylchog) yn byw yn y mwd a'r tywod ar waelod aberoedd a moroedd, ac maent yn ddangosyddion da o statws ecolegol corff dŵr. Mae macroinfertebratau yn cynnwys; mwydod dyfrol, malwod, cregyn cylchog, cimychiaid yr afon, gelod ac ati ac oherwydd eu cysylltiadau cryf â llygredd a phwysau eraill, maent yn ddangosyddion da o ansawdd dŵr.
Pysgod	Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn cyfarwyddo'r defnydd o elfennau ansawdd biolegol, fel pysgod i asesu'r statws ecolegol mewn cyrff dŵr. Ystyrir bod pysgod yn ddangosyddion dibynadwy o ansawdd amgylcheddol oherwydd eu cynrychiolaeth mewn amrywiaeth eang o lefelau troffig, symudedd cymharol uchel a disgwyliad oes hir.

Atodiad 10 – data tueddiadau 23 mlynedd rhywogaethau ar gyfer 1995-2018

Species	Habitat Association	1995_2018_change	2013_2018_change
Starling	Farmland	-84 (16)	-6 (14)
Swift	Urban	-79 (15)	-37 (14)
Greenfinch	Farmland	-75 (18)	-74 (15)
Grey Wagtail	Upland	-67 (6)	-33 (7)
Yellowhammer	Farmland	-62 (8)	-34 (7)
Curlew	Upland	-58 (7)	79 (6)
Wheatear	Upland	-56 (13)	-25 (16)
Rook	Farmland	-54 (13)	-57 (13)
Chaffinch	Woodland	-48 (44)	-32 (52)
Magpie	Other	-47 (30)	-7 (34)
Garden Warbler	Woodland	-45 (15)	-24 (17)
Green Woodpecker	Woodland	-44 (19)	-19 (19)
House Martin	Urban	-43 (17)	-28 (18)
Grey Heron	Wetland	-41 (8)	54 (6)
Long-tailed Tit	Woodland	-34 (16)	-11 (17)
Mallard	Wetland	-30 (12)	-10 (15)
Redstart	Woodland	-29 (20)	-38 (26)
Jackdaw	Farmland	-29 (21)	-23 (31)
Blue Tit	Woodland	-28 (38)	-16 (45)
Raven	Upland	-27 (25)	13 (32)
Linnet	Farmland	-22 (18)	14 (20)
Meadow Pipit	Upland	-19 (22)	-17 (25)
Woodpigeon	Farmland	-17 (40)	-20 (48)
Cuckoo	Other	-17 (18)	-4 (20)
Pied/White Wagtail	Other	-16 (24)	-18 (31)
Bullfinch	Woodland	-16 (17)	-6 (18)
Goldcrest	Woodland	-15 (22)	-3 (26)
Mistle Thrush	Other	-15 (26)	14 (32)
Buzzard	Upland	-12 (36)	0 (42)
Willow Warbler	Woodland	-12 (38)	-12 (43)
Whitethroat	Farmland	-9 (12)	-17 (13)
Robin	Woodland	-9 (42)	6 (49)
Treecreeper	Woodland	-8 (10)	77 (12)
Swallow	Urban	-6 (36)	-6 (42)
Coal Tit	Woodland	-5 (22)	27 (28)

Pheasant	Woodland	-3 (19)	-8 (24)
Collared Dove	Other	1 (11)	9 (14)
Carrion Crow	Other	5 (44)	-13 (54)
Nuthatch	Woodland	6 (20)	-6 (26)
Great Tit	Woodland	7 (38)	-18 (45)
Sparrowhawk	Woodland	7 (5)	31 (5)
Tree Pipit	Woodland	10 (15)	-24 (19)
Skylark	Farmland	12 (26)	-17 (32)
Wren	Woodland	15 (43)	20 (52)
Stock Dove	Farmland	25 (11)	-43 (14)
Jay	Woodland	26 (20)	28 (24)
Dunnock	Woodland	28 (33)	-5 (40)
Song Thrush	Woodland	28 (40)	-11 (48)
Blackbird	Woodland	28 (43)	-4 (52)
Chiffchaff	Woodland	34 (31)	-9 (39)
Siskin	Woodland	67 (10)	0 (15)
Goldfinch	Farmland	78 (26)	-3 (32)
Reed Bunting	Farmland	81 (5)	38 (7)
Great Spotted Woodpecker	Woodland	185 (22)	10 (31)
House Sparrow	Urban	197 (23)	23 (28)
Blackcap	Woodland	201 (31)	20 (40)
Whinchat	Upland	208 (6)	-30 (6)
Red Kite	Upland	329 (9)	158 (19)
Lesser Redpoll	Woodland	440 (8)	-5 (10)
Stonechat	Other	467 (6)	95 (9)
Canada Goose	Wetland	914 (6)	40 (11)

Atodiad 11 – Cymhariaeth Sgiliau Cymraeg (Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru)

Dealltwriaeth o'r Gymraeg		2001		2011	
	% o'r boblogaeth o fewn y ffin	% â rhywfaint o ddealltwriaeth o'r Gymraeg	% sy'n gallu, siarad, ysgrifennu a darllen y Gymraeg	% â rhywfaint o ddealltwriaeth o'r Gymraeg	% sy'n gallu, siarad, ysgrifennu a darllen y Gymraeg
Enw'r Ward					
Aber-craf	3%	64.0	30.5	58.89	26.28
Bwlch	100%	16.4	7.4	18.23	7.80
Crucywel a Bro Grwyne	100%	16.6	8.2	14.35	6.39
Cwm-twrch	0%	70.9	39.7	65.12	30.70
Honddu Isaf/Llan-ddew (Felinfach)	3%	25.0	10.5	21.48	9.85
Gwernyfed + Llanigon	36%	15.4	6.9	14.87	6.81
Y Gelli Gandryll	100%	12.3	5.5	14.39	5.82
Llangatwg	100%	16.6	7.2	17.92	5.91
Llan-gors	100%	23.0	10.7	19.63	8.52
Llangynidr	100%	22.9	10.5	18.24	8.59
Maes-car/Llywel, Crai	100%	42.6	20.4	40.16	18.09
Aberhonddu Dewi Sant	100%	22.4	9.4	20.65	9.15
Aberhonddu Sant Ioan	100%	25.2	12.9		
Aberhonddu Santes Fair	100%	21.0	9.8		
Talgarth	96%	19.7	7.0	20.07	8.47
Tal-y-bont, Glyntarell, Llanfrynach	93%	23.2	11.2	22.15	8.32
Tawe-Uchaf/Llanfellte	57%	49.4	21.4	42.97	16.24
Aberysgir, Trallong,	29%	29.6	12.3	27.55	12.33
Ystradgynlais wledig	1%	66.7	31.7	57.23	24.61
Garnant Cwmaman	3%	79.4	55.0	69.47	41.61
Glanaman	1%	77.6	52.3	70.47	41.80
Dyffryn Cennen (Llandeilo)	13%	70.0	42.9	66.54	36.82
Llanymddyfri, Llanfair	5%	60.2	35.7	54.07	29.38
Llandybie	Llai nag 1%	75.2	46.2	71.41	38.78
Llangadog,Llanddeusant,Myddfai	45%	69.0	51.6	65.16	43.81
Cwarter Bach	6%	83.3	61.7	76.62	51.25
Y Rhigos (Hirwaun)	49%	32.5	13.9	29.59	12.35
Y Faenor	12%	21.3	7.8	18.05	6.79
Bryn-mawr	1%	14.8	6.8	11.86	5.75

Pont-y-pŵl New Inn	0%	13.5	7.7	11.91	5.83
Gogledd y Fenni (Cantref)	3%	15.0	8.0	13.41	6.24
Crucornau	36%	12.0	7.3	14.29	7.45
Goetre Fawr	10%	14.3	8.0	15.71	8.23
Llanelli	100%	15.0	7.6	14.23	6.49
Llan-ffwyst Fawr	17%	15.2	7.5	15.85	8.51
Llanofer	3%	12.2	6.5	12.18	6.45
Llan-ffwyst Llanwenarth Tu Draw	100%	14.3	7.1	13.61	6.36
Llandeilo Bertholau Maerdy	13%	14.2	7.4	16.27	7.61

Atodiad 12 – Cyflogaeth/Diweithdra
Cyflogaeth

Mae data cyflogaeth ar gael yn ôl ardal awdurdod lleol yn unig, ac roedd Powys a Sir Fynwy gyda'i gilydd yn 91.5% o boblogaeth Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn 2015. Dangosir data ynghylch gweithgarwch economaidd yn ôl y saith awdurdod lleol cyfansoddol isod

	Powys	Monmouthshire	Carmarthenshire	Rhondda Cynon Taf	Merthyr Tydfil	Blaenau Gwent	Torfaen	Wales	Great Britain
Economic Activity Rate age 16-64 (2016) (%)	80.4	79.1	76.6	74.2	73.3	69.2	77.0	74.8	77.8

Source: ONS Annual Population Survey/Labour Force Survey 2016

..\People and Economy\Data\31516 Brecon Beacons NPA Assessment of Housing Need Update with Appendic....pdf

Yn 2016, roedd gan bedwar o'r saith awdurdod (Powys, Sir Fynwy, Torfaen a Sir Gaerfyrddin) lefelau uwch o weithgarwch economaidd ymhlith y boblogaeth o oedran gweithio (16-64 oed) na Chymru yn ei chyfanrwydd (74.8%). Roedd gan Bowys gyfradd gweithgarwch economaidd o 80.4% a oedd hefyd yn uwch na chyfartaledd Prydain Fawr (77.8%), ac roedd Sir Fynwy yn uchel hefyd ar 79.1%. Roedd y lefelau isaf o weithgarwch economaidd yn ne'r Parc Cenedlaethol, yn enwedig yn Rhondda Cynon Taf (74.2%), Merthyr Tudful (73.3%) a Blaenau Gwent (69.2%); fodd bynnag, roedd llai na 4% o gyfanswm poblogaeth Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn yr awdurdodau hyn.

Mae lefelau diweithdra ledled Cymru, Prydain Fawr a'r saith ardal awdurdod lleol wedi gostwng o'r cyfartaleddau deng mlynedd. Dangosir hyn isod gyda lefelau Powys o 2.9% yn 2016 yn is na chyfartaledd Cymru o 4.6%.

	Powys	Monmouthshire	Carmarthenshire	Rhondda Cynon Taf	Merthyr Tydfil	Blaenau Gwent	Torfaen	Wales	Great Britain
2016	2.9%	3.1%	4.1%	5.3%	5.4%	6.4%	4.2%	4.6%	4.8%
10-year average (2006-2016)	4.4%	4.7%	6.1%	8.5%	9.4%	11.3%	8.4%	7.0%	6.6%

Source: ONS Annual Population Survey/Labour Force Survey

Cyflogaeth

Yn ôl data Experian ar gyfer mis Mawrth 2019, roedd 18,230 o swyddi gweithlu ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar y dyddiad hwn. Cynyddodd swyddi gweithlu 0.3% (50 o swyddi) rhwng 2009 a 2019 ac 11% (1800 o swyddi) ers 1997.

Cyflogaeth yn ôl math o ddiwydiant



Mae'r graff uchod yn nodi cyflogaeth yn ôl math o ddiwydiant yn y Parc Cenedlaethol rhwng 1999 a 2029. Defnyddiodd y fersiynau blaenorol o Adroddiad Cyflwr y Parc yn 2006 a 2014 ddata Cyfrifiad. Gan na fydd unrhyw ddata Cyfrifiad wedi'u diweddaru ar gael tan 2021, daw'r ffigurau a ddefnyddir yn yr argraffiad hwn o ragolygon Experian. Mae'r categorïau cyflogaeth a ddefnyddir yn nata Experian yn wahanol i'r rhai a ddefnyddir yn y Cyfrifiad, felly nid yw'n bosibl llunio cymariaethau union. Mae'r graff uchod yn dangos y 15 prif ddiwydiant cyflogi yn y Parc Cenedlaethol ym 1999, ac mae'r holl ddiwydiannau eraill wedi'u grwpio gyda'i gilydd o dan 'Eraill'.

Mae'n rhaid nodi bod y 15 prif ddiwydiant cyflogi wedi newid rhyw fymryn ers ffigurau 1999; o 2009 ymlaen, mae Hamdden wedi disodli Cynhyrchion Metel erbyn hyn.

Gweinyddiaeth Gyhoeddus ac Amddiffyn oedd prif ddiwydiant cyflogi'r Parc ym 1999 ar 9.1%, ond roedd y ganran hon wedi gostwng i 6.9% yn 2009 a 2019, gyda rhagolwg y bydd yn gostwng ymhellach fyth i 6.6% erbyn 2029.

Yn 2009, daeth Addysg y prif fath o gyflogaeth ar 11.9% (gan gynyddu o 8.9% ym 1991). Gostyngodd y ffigur hwn i 9.8% yn 2019, ond dyma'r prif ddiwydiant cyflogi o hyd, a rhagwelir y bydd yn aros ar y brig yn 2029 gan gyflogi 10.2% o'r boblogaeth sy'n gweithio.

Gostyngodd y categori Amaethyddiaeth, Coedwigaeth a Physgota o 8% ym 1999, i 6.6% yn 2009, ond cynyddodd eto i 7.4% yn 2019. Rhagwelir y bydd rhyw fymryn o ostyngiad i 7.2% erbyn 2029.

Rhwng 1999 a 2009, bu gostyngiad i nifer y bobl a gyflogir yn y sector Gwasanaethau Llety a Bwyd o 6.7% i 5%. Fodd bynnag, mae'r ffigur hwn wedi cynyddu i 5.7% yn 2019, a disgwylir y bydd yn cynyddu ymhellach i 6.2% erbyn 2029.

Mae diwydiant cyflogi lechyd hefyd yn un o'r cyflogwyr mwyaf yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r diwydiant penodol hwn wedi tyfu o 6.8% ym 1999, i 8.7% yn 2009 a 2019. Disgwylir i'r ffigur hwn gynyddu ymhellach i 8.9% yn 2029.

Mae cynhyrchion metel yn ddiwydiant sydd wedi dirywio yn sylweddol yn ystod y cyfnod hwn. Mae wedi gostwng o 203% ym 1999 i 0.9% yn 2009 ac i 0.7% yn 2019. Disgwylir i'r ffigur hwn ostwng ymhellach fyth i 0.5% erbyn 2029.

Rhagolygon Experian

2017

BBNP Experian forecast Brecon Beacc

Experian forecasts by graph.xlsx

Experian Data Guide - March 2017.PDF

2019

31515 Experian Brecon Beacons Natio

Denu poblogaeth o oedran gweithio i wireddu rhagolygon economaidd… Mae risg sylweddol yn gysylltiedig â'r dull hwn. Mae angen sicrhau lefelau sylweddol o ymfudo net i gyflawni cynnydd bach i'r gweithlu llafur cynhenid. Os na fydd y rhagolygon economaidd yn cael eu gwireddu, gallai hyn arwain at fwy o gymudo i mewn i'r Parc Cenedlaethol ac allan ohono, ac anghydbwysedd demograffig mwy fyth na fyddai fel arall pe byddai'r cynnydd yn cael ei hwyluso.




Experian 2018 - 2033 Jobs % increase by sector
(labelled with absolute increase)
20
18
16
14
12
10
8
6
4
2
0
30
10
60
140
60
20
30
160
80
240
Construction of Buildings
Civil Engineering
Specialised Construction Activities
Accomodation & Food Services
Recreation
Real Estate
Professional Services
Education
Health
Residential Care & Social Work